PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY


www.aber.ac.uk/cy/news

Proffiad Myfyrwyr Gorau yn y Wlad 2012

# NEWYDDION Aber

*Aberystwyth… un o'r llefydd gorau yn y byd i fod yn fyfyriwr*

RHIFYN 9
Medi / Hydref 2012



The Queen's Anniversary Prizes
For Higher and Further Education
2009


2 03 yw'r rhif cyfrin




5 Casgliadau arbennig




7 Cig eidion iachach o laswellt tewach



10 Beth yw'r dyfodol y carem weld? Rio +20



12 Cyrch Cymreig i'r gofod




# Hynt y gwalch ar y gwynt

## Mae'n amser cyffrous i ymchwilwyr IBERS, wrth i'r gweilch adael eu nyth ger y Ddyfi a dechrau ar eu hymfudiad aruthrol o 3,500 milltir o orllewin Cymru i orllewin yr Affrig.

Mae'r gwaith o ailsefydlu poblogaeth o weilch yn aber y Ddyfi yn cael ei wneud gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Maldwyn ac mae ymchwilwyr yn IBERS yn cynorthwyo'r prosiect gyda theclynnau olrhain wedi eu pweru gan ynni'r haul ac sydd yn hwyluso'r gwaith o astudio eu hymfudiad blynyddol i orllewin Affrica.

Gyda data GPS ar gael bob 48 awr gall y tîm gynnal astudiaeth ymfudiad gwalch Cymreig am y tro cyntaf un. Gobeithir y bydd y data a gesglir yn cyfrannu at gadwraeth ac adferiad y rhywogaeth yn y pen draw.

Treuliodd pâr y Ddyfi ychydig dros bum mis yng Ngorllewin Cymru, gan ddodwy tri wy yn ystod y tywydd haf gwaethaf ar gofnod, a chan fagu un cyw gwrywaidd a dyfodd i'w lawn blu ym mis Gorffennaf. Enwyd y cyw tagiedig gwrywaidd, a ddechreuodd ar ei ymfudiad cyntaf pan oedd yn 97 diwrnod oed, yn Ceulan, ar ôl yr afon gyfagos a dorrodd ei glannau yn ystod y llifogydd a fu yn gynnar ym mis Mehefin, afon sy'n llifo i mewn i aber y Ddyfi, lle bydd y gweilch yn pysgota.

Gadawodd Ceulan y nyth yn gynnar ar ddydd Llun y 3ydd o Fedi, a nythodd rai milltiroedd i'r de-orllewin o Gaerwysg (Exeter) ar y noson honno, ar ôl iddo deithio am 140 o filltiroedd ar ei ddiwrnod cyntaf. Ar ddydd Mawrth croesodd y Sianel, teithiodd ar draws Llydaw, ac hedfanodd am 12 awr dros nos i groesi Bae Biscay, gan gyrraedd Porto erbyn prynhawn dydd Mercher.

*Parhau ar dudalen 2*

Cyhoeddir NEWYDDION Aber gan **Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus**, Prifysgol Aberystwyth.

Ffon 01970 621763.
E-bost: cyfathrebu@aber.ac.uk

Bydd y rhifyn nesaf o NEWYDDION Aber ar gael ym mis **Tachwedd 2012.**

Dyddiad cau ar gyfer y rhifyn nesaf yw dydd **Llun 1af Hydref.**

# 03 yw'r rhif cyfrin



Yn barod i fynd, y bws 03 newydd.

Mae gwasanaeth bws newydd a fydd yn cysylltu'r dref, y Brifysgol a'r Llyfrgell Genedlaethol wedi cael ei lansio'n barod ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Cylchreda'r gwasanaeth 03 Mid Wales Travel newydd rhwng y dref, y Llyfrgell Genedlaethol a Champws Penglais bob 20 munud rhwng 07.40 ac 19.40, o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod y tymor. Rhed y gwasanaeth hwyrnos bob awr rhwng 20.20 a 22.20, gyda'r bws olaf yn gadael Canolfan y Celfyddydau am 22.33.

Ar benwythnos enwythnosau ac ar adegau y tu allan i ddyddiadau'r tymor, bydd y gwasanaeth yn rhedeg bob awr rhwng 7.45 a 22.45.

Erys gyntaf yn y Llyfrgell, yna mae'n galw yn y Ganolfan Chwaraeon a Chanolfan y Celfyddydau cyn dychwelyd i'r dref heibio'r Llyfrgell Genedlaethol.

Yn ogystal â darparu gwell gwasanaeth rhwng y dref a'r campws i fyfyrwyr, staff a'r cyhoedd yn gyffredinol, gobeithir y bydd y gwasanaeth newydd, a gyllidir trwy nawdd o £192,750 gan Gronfa Adfywio Aberystwyth, yn lleihau'r nifer o geir ar y campws.

Bydd tocyn sengl yn costio £1 a chaiff plant deithio am 50c. Gall staff a myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth brynu tocyn blwyddyn ar gyfer y gwasanaeth o Siop Undeb y Myfyrwyr am £65.

Gall deiliad y tocyn blwyddyn deithio'n ddirwystr ar wasanaethau Mid Wales Travel o fewn Aberystwyth, gan gynnwys y gwasanaeth 03 newydd, a'r bws o Aberystwyth i Ogerddan. Gellir cael prisiau gostyngol hefyd ar wasanaethau eraill y cwmni rhwng Aberystwyth a'r pentrefi cyfagos.

Gall deiliaid Tocyn Teithio Rhatach Ceredigion ddefnyddio'r gwasanaeth am ddim.

Mae gwybodaeth bellach am y gwasanaeth, ynghyd ag amserlen y bysiau, i'w gweld ar-lein ar www.aber.ac.uk/cy/maps-travel/bus/new-bus/

*Parhau o dudalen 1*

Yn gynnar ar fore Sul, gadawodd Ceulan awyr Portugal, hedfanodd i'r de dros fôr yr Iwerydd, a glaniodd 12 awr yn ddiweddarach yn Affrica. Cwta wythnos wedi iddo adael ei nyth ar aber y Ddyfi, yr oedd Ceulan wedi croesi Morocco ac wedi cyrraedd Mauritania.

"Erbyn hyn mae Ceulan yn yr anialwch sych Affricanaidd. Am dirwedd gwrthgyferbyniol i'r bryniau gwyrdd a'r haf glwyb a welodd yn ystod ei fagwraeth yma yng Nghymru. Mae'n bur debygol y bydd yn hedfan trwy wres aruthrol ac amodau sych iawn, gyda 10 awr o heulwen ym mhob diwrnod," esbonia Vicky King, Cydlynydd Prosiect Ymchwil llawn amser yn IBERS, a gwirfoddolwr cyson ym Mhrosiect Gweilch y Ddyfi. "Mewn wythnos y mae wedi teithio pellter o oddeutu 2,000 milltir. Os fydd Ceulan yn parhau ar y daith hon mae'n edrych yn gynhyddol debyg y bydd yn cyflawni un o'r ymfudiadau cyflymaf o'r DU i'r Affrig a gofnodwyd erioed!"

O'r tri chyw a fagwyd ger y Ddyfi yn 2011 mae gwybodaeth GPS ddibynadwy yn cael ei dderbyn o hyd oddi wrth un ohonynt, y gwryw hynaf, Einion. Gan fod gweilch gwrywaidd yn aml yn dychwelyd i'w hardal enedigol gobeithir y bydd Einion yn goroesi ei ail flwyddyn yn yr Affrig ac yn dychwelyd i Gymru i nythu ym mis Ebrill 2013. Bydd ei olrheiniwr GPS yn caniatáu i ymchwilwyr IBERS i ddilyn dychweliad gwalch a aned yng Nghymru am y tro cyntaf erioed.

Mae dau fyfyriwr IBERS wedi dechrau ar brosiectau ymchwil; un yn astudio llwybrau ymfudo gweilch ifainc; y llall yn astudio sut gall amodau amgylcheddol effeithio ar ddewis ysglyfaeth gweilch. Mae dehongliadau geneteg hefyd yn faes ymchwil sy'n cael ei ddatblygu.

Mae modd dilyn ymfudiad y gweilch ar y wefan: www.dyfiospreyproject.com/tracker

## Traffig unffordd


Mae'r system unffordd o gwmpas campws Penglais wedi newid. Gellir gweld map o'r daith newydd ar-lein ar www.aber.ac.uk/cy/maps-travel/campus-roads/

## Trefniadau parcio newydd

Mae llawer o newidiadau wedi cael eu gwneud i'r trefniadau parcio hefyd ar Gampws Penglais. Clustnodwyd maes parcio'r Hafan (gyferbyn â maes parcio talu ac arddangos Canolfan y Celfyddydau) fel maes parcio at ddefnydd staff yn unig, ac mae ardal talu ac arddangos newydd wedi agor ger y Gawell Chwaraeon. Gellir gweld map o ardaloedd parcio ar Gampws Penglais yma www.aber.ac.uk/residential/en/houseservices/parking%20map%2008-2012-1.pdf

## Caniatâd Parcio

Cyflwynir sustem barcio newydd ar draws yr holl gampws ar gychwyn y flwyddyn academaidd newydd. Bydd angen bathodyn caniatâd parcio ar bawb ar gyfer pob campws, gan gynnwys Penglais, Gogerddan, Llanbadarn, yr Ysgol Gelf a'r Hen Goleg. Ceir y manylion ar www.aber.ac.uk/residential/cy/houseservices/parking.shtml



## COLOFN YR IS-GANGHELLOR



Wrth basio Awst y 1af a phen-blwydd fy mhenodiad mae'n demtasiwn edrych yn ôl ar y flwyddyn a aeth heibio; ond byddai'n llawer gwell gennyf edrych tua'r dyfodol! Carwn ystyried un mater cyffredinol gan ofyn, fel y gwnaf bob tro, am eich cymorth a'ch awgrymiadau chi.

Bu cydweithio'n fwyfwy â chydweithwyr a myfyrwyr wrth gynllunio a gosod blaenoriaethau yn amcan pendant i'r Brifysgol eleni. Flwyddyn yn ôl, yr oeddem yn paratoi ar gyfer fy nghyfarfodydd agored cyntaf gyda'r staff, a gynlluniwyd fel sesiynau i ddod i adnabod ein gilydd, ond a oedd hefyd yn gamau cyntaf yn ein hymgais i osod ein hagenda ar gyfer y dyfodol. Trwy gydol y flwyddyn yr ydym wedi arbrofi gyda sawl patrymlun gwahanol ar gyfarfodydd. Mae rhai wedi ymateb yn uniongyrchol i faterion penodol lle'r oedd angen rhannu gwybodaeth. Bu eraill, fel y sesiynau 'Llunio ein Dyfodol', lle sefydlwyd cynnwys ein Cynllun Strategol newydd, yn llawer mwy rhyngweithiol (a difyr!).

Mae dau gydweithiwr - a dim ond dau - wedi gofyn imi pam fod rhaid iddynt fy nghynorthwyo i wneud penderfyniadau gan mai dyna fy swydd i. Wrth gwrs, y Corff Rheoli a Llywodraethu fydd yn gwneud y penderfyniadau, ac ni fyddwn ychwaith yn ofni gwneud hynny, ond mae'n llawer gwell gennym sicrhau fod ein penderfyniadau'n adlewyrchu ymgynghoriad a thrafodaeth flaenorol. Fe'm llonnwyd gan y niferoedd o sylwadau cadarnhaol sy'n dangos fod cydweithwyr yn teimlo fod ganddynt fwy o deimlad o ryngweithiad a pherchnogaeth ar ein strategaeth ar gyfer y dyfodol. Dyna yw ein bwriad ac mae'r sylwadau a adawyd ar y "waliau graffiti" yn ein sesiynau Llunio ein Dyfodol yn awgrymu ein bod yn llwyddo. (A dweud y gwir, er na fyddwn yn gweithredu hyn yn uniongyrchol, sylweddolais fod pobl yn sicr yn mynd i ysbryd y gweithgaredd pan welais un awgrym oedd yn cynnig sefydlu campws ar y Lleuad.)

Heb gamu'n rhy bell i diriogaeth theori, a thrwy hynny, i faes arbenigedd yr Ysgol Reolaeth a Busnes, ymddengys yn gymwys i gyfeirio at fodel a ddatblygwyd gan McKinsey yn y 1970au fel fframwaith ar gyfer ystyried sut gall sefydliadau weithredu'n fwy effeithiol. Mae'r model wedi'i seilio ar y saith S - Strategaeth, Strwythur, Systemau, Staff, Steil, Sgiliau, a Set o werthoedd craidd, ac yr ydym yn gweithio arnynt oll. Yn gyntaf, yr ydym wedi gofyn am gymorth ein Staff wrth ddatblygu Strategaeth. Nesaf, mae'n rhaid inni sicrhau fod ein Strwythur a'n Systemau yn gywir. Yr ydym yn gwneud hyn trwy adolygu strwythur ein pwyllgorau a sicrhau ein bod yn gwneud penderfyniadau mewn dulliau tryloyw; yn ogystal, trwy'r broses o aildrefnu academaidd, ar y naill law, ac ailstrwythuro neu gywain ynghyd yr adrannau gwasanaeth ar y llaw arall. Golyga hyn y bydd y bobl gywir gyda'r Sgiliau cywir yn gweithio yn y llefydd cywir, a bydd hyn yn ein galluogi i weithredu ar ein Set o werthoedd craidd trwy ein Cynllun Strategol. Mae'n gryn falchder imi gyhoeddi fod y Set hon o werthoedd, a ddaeth i'r amlwg yn ystod y sesiynau 'Llunio ein Dyfodol', yn gosod dyfodol y Brifysgol fel lle sy'n uchelgeisiol, yn ddyfeisgar, yn canolbwyntio ar bobl, yn rhyngwladol, yn seiliedig ar gymuned, yn gydweithredol, yn agored, ac yn gyfrifol.

Yr 'S' na thrafodais eto yn amlwg yw Steil, neu Arddull - ond dyna yw testun yr holl golofn. Gelwir yr Arddull Aber sy'n ymffurfio arnom i fod mor gynhwysol ag y medrwn, i geisio ymgynghoriad mor eang ag sy'n bosibl, ac yna i ddod i gasgliadau, ar sail ein gwerthoedd craidd. Ni fydd hyn yn newid - dros y flwyddyn ddiwethaf yr ydym wedi sefydlu'r arddull honno yn eithaf pendant. Ond mae arnaf angen eich cymorth i ddatrys sut y dylai hyn weithio o ddydd i ddydd. Ni fyddwn yn datblygu Cynllun Strategol newydd yn y flwyddyn nesaf; byddwn oll yn gweithio i'w gyflawnu. Felly beth yw'r patrwm, a'r amlder, cymwys ar gyfer y cyfarfodydd agored? Pa fath o bynciau carech chi eu trafod, a phwy garech chi weld yn cyfrannu iddynt? Gadewch inni wybod trwy gysylltu ag is-ganghellor@aber.ac.uk a gyda'n gilydd medrwn osod yr agenda ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.



**Professor April McMahon, Is-ganghellor**

# Ffagl Gobaith

Y darparwr gofal hosbis yng Ngheredigion, Ffagl Gobaith, fydd elusen Is-ganghellor Prifysgol Aberystwyth am 2012/13.

Sefydlwyd Ffagl Gobaith yn 2000 a'i hamcan yw optimeiddio safon byw pobl sy'n dioddef o salwch datblygedig, cynyddol, na ellir ei wella, a chynorthwyo eu teuluoedd, o'r diagnosis hyd at farwolaeth a galar.

Wrth ystyried amcanion yr Elusen, nododd Elizabeth Murphy, Cadeirydd a Sylfaenydd Ffagl Gobaith, "Ein hamcan yw gwneud diwedd bywyd yn ddathliad o'r ysbryd dynol, nid trasiedi a thestun galar."

Gwnaed y cyhoeddiad gan yr Athro April McMahon yn ystod y gyntaf o'r seremonïau graddio eleni. Fel yr elusen enwebiedig, roedd gan Ffagl Gobaith stondin yn y seremonïau graddio, lle darparasant wybodaeth am y gwasanaethau a gynigir ganddynt.




*Ch i'r Dd: Rachel Rowlands MBE, Noddwr Ffagl Gobaith, Elizabeth Murphy MBE, Cadair a Sylfaenydd Ffagl Gobaith, Yr Athro April McMahon, Carys Stevens, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ffagl Gobaith a Mr Alan Axford, Ymgynghorydd Meddygol Gwirfoddol Ffagl Gobaith, yn nodi'r cyhoeddiad mai'r Ffagl Gobaith yw Elusen yr Is-ganghellor am 2012/13.*

NEWYDDION

# Graddio 2012

Roedd y seremonïau graddio eleni yn llawn o'r asbri traddodiadol wrth i israddedigion ac uwchraddedigion o bob cwr o'r byd gyd-ddathlu eu llwyddiannau.

Cyflwynwyd wyth Cymrawd newydd o fyd theatr, ffilm, teledu, masnach, ysgolheictod, llenyddiaeth, a'r gyfraith.

Roedd rhai elfennau newydd i'r digwyddiad. Diddanodd y Cantorion Madrigalau Elisabethaidd y torfeydd a chyflwynwyd pawb oedd yn graddio yn unigol i'r Is-ganghellor. Am y tro cyntaf un, gwahoddwyd y Cymrodyr i gyfarch y gynulleidfa a dangoswyd areithiau derbyn tri ohonynt ar sgrin fawr gan nad oeddent yn medru mynychu'r seremoni.



Y diweddar Roger Roberts ar ddydd ei raddio.

Fodd bynnag, y myfyriwr graddedig hynaf o'u plith, Roger Roberts oedd yn 82 mlwydd oed, oedd yr un a ddaliodd sylw pawb. Er nad oedd yn yr iechyd gorau, cyflwynwyd Mr Roberts â Gradd Baglor mewn Economeg a Gwyddorau Cymdeithasol gan yr Is-ganghellor i sain cymeradwyaeth fonllefus ar brynhawn dydd Iau.

Adroddwyd am gamp Roger gan lawer, gan gynnwys y BBC a'r *Irish Independent*. Ond, yn anffodus, bu farw cwta dridiau wedi iddo raddio.

Wrth siarad â'r *Wales on Sunday*, a glustnododd ddwy dudalen er cof amdano, dywedodd ei weddw Mrs Rita Roberts: "Yr oedd mor falch ei fod wedi cwblhau ei radd, ac yr oedd yn mwynhau'r holl sylw, y straeon yn y papur newydd ac yn y blaen. Dwi'n meddwl, yn y diwedd, ei fod wedi medru ymlacio ac ildio."

Dywedodd yr Athro Michael Foley, pennaeth yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol lle astudiodd Roger: "Er iddo ddioddef o rai trafferthion iechyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, parhaodd i gynhyrchu gwaith academaidd o'r safon gorau. Enillodd ei gamp o raddio eleni lawer barch ac edmygedd iddo oddi wrth bawb yn yr Adran.

"Profodd ei orchest hefyd na ddylai oedran fyth gyfyngu ar uchelgais bersonol a'i bod hi fyth yn rhy hwyr i ddechrau ar brosiectau mewn cyfeiriadau newydd," ychwanegodd.

# Dysgu yn yr haf

Ar ddiwedd mis Awst, mynychodd 74 myfyriwr ifanc seremoni raddio dra gwahanol. Yr oeddent yn dathlu cwblhau cwrs preswyl chwech wythnos Prifysgol Haf Aberystwyth.

Trefnwyd y cwrs gan Ganolfan Ehangu Cyfranogiad a Mynediad y Brifysgol, a'i fwriad yw ysbrydoli pobl ifainc o gefndiroedd llai breintiedig ac i herio'r rhagdybiaeth nad yw addysg uwch ddim yn beth iddynt hwy.

Mae'n gyfle i bobl ifainc i astudio pynciau o'u dewis hwy, a chael eu haddysgu gan ysgolheigion yn eu hadrannau, gan fwynhau profiad sy'n ddrych credadwy ar fywyd prifysgol.

Rhaid iddynt hefyd ddysgu dygymod â byw oddi cartref, delio â phwysau gwaith academaidd, a datblygu sgiliau rheolaeth amser er mwyn mwynhau rhaglen o weithgareddau chwaraeon a chymdeithasol.

Ymunodd Neil Surman, Pennaeth yr Adran Addysg Uwch dros Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru, a Dylan Lewis, Maer Aberystwyth, â'r Athro McMahon er mwyn cyflwyno'r tystysgrifau i 'raddedigion 2012' ger bron cynulleidfa o rieni, teuluoedd, tiwtoriaid, a gwesteion balch.




Chwith i'r dde: Neil Surman, y myfyrwraig-arweinydd Claire James, y myfyrwyr Lily Robbins, Roisin Wood a George Smith, a'r Athro April McMahon.

## Cymrodyr

Y Cymrodorion newydd eleni oedd yr actor sgrin a llwyfan Cymreig, **Michael Sheen**; cyn fyfyrwraig TFTS a chyflwynydd *The One Show*, **Alex Jones**; Cyfarwyddwr y Sefydliad Gwasanaethau Unedig Brenhinol a myfyriwr graddedig o'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth, **Yr Athro Michael Clarke**; Cyfarwyddwr-Reolwr Waitrose, **Mark Price**; y cyfarwyddwr ffilmiau sydd wedi ennill Oscar, a myfyriwr graddedig o'r Adran Gyfrifiadureg, **Dr Jan Pinkava**; cyn Archesgob Cymru, a myfyriwr graddedig o Aberystwyth, y **Parch. John Gwilym Jones**; y darlledwr, beirniad teledu a cholofnydd i'r *Times*, **Caitlin Moran**; a Barnwr Preswyl Cymru, **Sir David Lloyd Jones**.



Yr Is-lywydd Elizabeth France yn cyflwyno Caitlin Moran yn Gymrawd.

NEWYDDION

# Gŵyl Lyfrau PA 2012 – Fy nofel i

Dywedir fod gan bawb ddeunydd ar gyfer o leiaf un nofel ynddynt, felly, gan adeiladu ar Ŵyl Lyfrau gyntaf PA y llynedd, bydd digwyddiad 2012 ar y 10fed o Ragfyr yn cynnwys cystadleuaeth Ffuglen Fflach yn ogystal â rhoi cyfle ichi glywed a chwrdd ag awduron lleol, cyhoeddwyr ac arwerthwyr llyfrau.

Eleni yr ydym hefyd yn cydweithio â llyfrgelloedd cyhoeddus Ceredigion, felly bydd amrywiol ddigwyddiadau'r Ŵyl Lyfrau yn dechrau ym mis Hydref. Mae gan Lyfrgelloedd cyhoeddus Ceredigion ddigwyddiadau arbennig ar gyfer wythnos iechyd meddwl a fydd yn parhau trwy Hydref a Thachwedd, gan arwain at yr Ŵyl ei hun.

Edrychwch allan am bosteri a chyhoeddusrwydd Gŵyl Lyfrau 2012 yn ystod yr Hydref!

# Casgliadau Arbennig


*Yr Athro Fergus Johnston*

Dros y ganrif ddiwethaf, bu Prifysgol Aberystwyth yn ffodus o dderbyn nifer o roddion pwysig o amryw ffynonellau a gyfoethogodd gasgliad y llyfrgell a chefnogi dysgu ac ysgolheictod.

Yn y blynyddoedd cynharaf, rhoddodd George Powell o Nanteos nifer o lyfrau, llawysgrifau ac *objets d'art* i'r Coleg rhwng 1879 a 1882. Yr eitemau hyn oedd craidd y llyfrgell wreiddiol ac yn eu plith fe welir nifer o drysorau prin megis golygiad Warburton o Shakespeare, a gyhoeddwyd yn 1747, ac a ddefnyddiwyd gan Samuel Johnson wrth iddo baratoi ei Eiriadur Saesneg. Ewyllysiodd Syr John Rhys, Athro cyntaf y Gymraeg yn Rhydychen, ei gasgliad o ryw 2000 o lyfrau i ni yn 1915 a gellir adnabod yr eitemau hyn oherwydd eu platiau llyfr lliw amlwg.


*Forbes, James. Illustrations to Oriental Memoirs / gan James Forbes. Llundain: R.Bentley, 1835.*

Mae'r arddangosfeydd a fydd yn Llyfrgell Thomas Parry tan y Nadolig yn canolbwyntio ar ddwy o gymynroddion mwy diweddar i'r Brifysgol. Bu John Challinor ar staff yr Adran Ddaeareg o 1919, gan ymddeol fel Uwch-Ddarlithydd yn 1960. Bu farw yn Awst 1990 yn 95 oed a gadawodd ei gasgliad helaeth o lyfrau yn ymwneud â daeareg, botaneg a thopograffi i'r Brifysgol. Ceir nifer o lyfrau gwerthfawr a gyhoeddwyd yn ystod y 18fed a'r 19eg ganrif, ac mae canran fawr ohonynt o ddiddordeb hynafiaethol a nifer ohonynt yn weithiau allweddol yn hanes daeareg.

Bu'r Athro Fergus Johnston ar staff yr Adran Hanes o 1934 tan ei ymddeoliad yn 1967. Rhoddodd ryw 1500 o lyfrau yn ymwneud â hanes ac astudiaethau milwrol i'r llyfrgell yn 1986 a throsglwyddodd ei weddw weddill ei gasgliad i ni ar ôl ei farwolaeth yn 1991. Cryfder arbennig y casgliad yw materion milwrol o'r 19eg ganrif, gan gynnwys Rhyfeloedd Napoleon. Ceir galw mawr am yr eitemau hyn ymhlith casglwyr llyfrau bellach ac maent yn hawlio prisiau eithriadol uchel.

Bill Hines, Gwasanaethau Gwybodaeth

## Awduron – Mae arnom angen eich help!

Yr ydym yn chwilio am awduron a feithrinwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth i gymryd rhan yng Ngŵyl Lyfrau 2012. Os ydych wedi cyhoeddi llyfr, (llyfr academaidd, ffeithiol, neu ffuglennol) ac os hoffech gymryd rhan ar 10 Rhagfyr 2012, mae croeso ichi gysylltu â is-comms@aber.ac.uk am fwy o wybodaeth.

Gŵyl Lyfrau Prifysgol Aberystwyth University Book Festival

## Cerdyn newydd Aber

Mae'r Brifysgol ar hyn o bryd yn cyflwyno arddull newydd ar gerdyn Aber ar gyfer pawb o'r myfyrwyr a'r staff.

Mae'r cardiau newydd yn gardiau agosrwydd sy'n golygu y gellir eu darllen heb fod rhaid eu mewnosod na'u gwirio mewn darllenydd cerdyn. Mae'r swyddogaeth hon yn angenrheidiol ar gyfer y systemau diweddariedig sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer cloeon drysau mewn rhai adeiladau preswyl ac academaidd, ac ar gyfer y diweddariadau i wasanaethau argraffu a llungopïo a gynhelir ym mis Ionawr 2013. Bydd y cardiau newydd hefyd yn cynnal y systemau presennol, fel prynu bwyd mewn bwytai a chaffis; benthyca o'r llyfrgell (gan gynnwys y defnydd o beiriannau hunan-ddarpariaeth); mynediad at ystafelloedd cyfrifiadurol 24 awr; a'r gwasanaethau argraffu a llungopio sydd ar gael ar hyn o bryd.

Bydd aelodau o staff yn derbyn e-bost pan fydd eu cerdyn Aber newydd wedi'i argraffu, a bydd eich cerdyn ar gael i'w gasglu o Lyfrgell Hugh Owen. Bydd eich cerdyn presennol yn parhau yn weithredol hyd oni argraffir eich cerdyn newydd, a throsglwyddir unrhyw gredyd a data i'r cerdyn Aber newydd.

# Ymchwil Aber

Ym mis Gorffennaf, penodwyd yr Athro Martin Jones yn Ddirprwy Is-ganghellor gyda chyfrifoldeb dros Ymchwil, Menter a Rhyngweithio. Mae'r Swyddfa Ymchwil yn edrych ymlaen at gael gweithio gydag ef yn ystod y cyfnod pwysig hwn sy'n arwain at y REF.

## Mae'r dyfodol yn bur

Mae'r sibrydion yn wir, ar ddechrau'r flwyddyn academaidd newydd bydd y Brifysgol yn mabwysiadu'r System Wybodaeth am Ymchwil Gyfredol (CRIS) newydd o'r enw PURE, gan gwmni Atria.

Bydd y system hon, a fydd yn cymryd lle'r Bas Data Gweithgaredd Ymchwil (RAD), yn galluogi'r staff i weld eu holl weithgareddau ymchwil mewn un man. Yn gyntaf, bydd hyn yn cynnwys: yr holl wybodaeth am gyhoeddiadau sydd wedi'i storio yn RAD, CADAIR trysorfa'r Brifysgol a bas data cyhoeddiadau IBERS; manylion gweithgareddau ymchwil eraill a dynodwyr o barch a storiwyd gynt yn RAD; a manylion goruwchwyliad myfyrwyr presennol. Yn y dyfodol agos, bydd hefyd yn gyswllt gydag Agresso Business World (ABW) er mwyn darparu gwariant a datganiadau ar gyfrifon ar grantiau ymchwil.

Defnyddir PURE hefyd i reoli cais REF y Brifysgol, gyda modiwl wedi'i glustnodi'n arbennig sy'n efelychu anghenion system gyflwyno'r REF. Cyniga'r system forden flaen reolaeth gadarn a hygyrchedd adrodd yn ôl, gan gynnwys y gallu i gynhyrchu CVs ar gyfer gwe-dudalennau a cheisiadau ar gyfer cyllid ymchwil.

Bydd PURE ar gael i bob aelod o staff academaidd a chefnogaeth academaidd a bydd rhaglen o hyfforddiant defnyddwyr yn dechrau dros y misoedd nesaf. Cyhoeddir mwy o fanylion am hyn yn fuan.

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Tîm Monitro Ymchwil ar research@aber.ac.uk



**Gary Reed**
**Pennaeth y Swyddfa Ymchwil**

## Llwyddiant Cyllido IBERS

Tra ein bod wedi gweld nifer o grantiau gwych a gyllidwyd ar draws y Brifysgol dros y misoedd diwethaf, dylid rhoi cydnabyddiaeth arbennig i'r Athro Wayne Powell a'i gydweithwyr yn IBERS am ennill pum Grant Rhaglen Strategol Sefydliad y BBSRC (ISPGs) sydd werth cyfanswm o £22M dros 5 mlynedd mewn Egni a Bioburo, Systemau Bioleg Rumen, Cyfanswm Ffenomeg Cenedlaethol a Geneteg Cnydau a Genomeg a Germoplasm, a Grant Datblygu Sefydliadau.

## Cyfarfodydd Dechrau Prosiect (PIMF)

Fel rhan o gryfhau ein cefnogaeth wedi gwobrwyo, fe fyddwn, o'r haf hwn ymlaen, yn trefnu cyfarfodydd dechrau prosiect ar gyfer pob un o'n prosiectau ymchwil sydd newydd gael eu gwobrwyo. Bydd y cyfarfod, rhwng y Prif Ymchwilydd (PY) (a/neu'r Gweinyddwr Prosiect), y Swyddog Cyllid Ymchwil perthnasol a'r Swyddog Dablygu Ymchwil, yn gyfle i drafod yr holl faterion sy'n berthnasol i ddechrau prosiect ac i egluro agweddau adrodd yn ôl a gweinyddol y wobr. Yr ydym wedi datblygu Ffeil Dechrau a Rheoli Prosiect (PIMF), gan gynnwys rhestr wirio i gynorthwyo i arwain y cyfarfod ac at ddefnydd y PY wedi hynny fel ffeil canolog i'r prosiect. Wedi'i gysylltu at hyn, yr ydym wedi gweithio gydag Adnoddau Dynol i ddatblygu patrymluniau safonol ar gyfer disgrifiadau swyddi ymchwilwyr yn addas at Raddau 6-9 gyda HERA, gellir canfod y rhain ar y Blwch Offer Ymchwil trwy wefan y Swyddfa Ymchwil. (www.aber.ac.uk/en/research/support/toolkit/)

## Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC




Mae'r ESRC yn cynnal eu 10fed Gŵyl Gwyddorau Cymdeithasol eleni, o'r 3ydd-10fed o Dachwedd, ac yr ydym wedi bod yn llwyddiannus yn ein hymgais i ennill cyllid ar gyfer cynnal digwyddiad wedi'i anelu at ddisgyblion ysgol. Ar y 6ed o Dachwedd byddwn yn croesawu 30 o ddisgyblion Blwyddyn 12 i Brifysgol Aberystwyth i gymryd rhan mewn 'Cynhadledd Newid Hinsawdd' ryngweithiol a fydd yn eu cymell i feddwl am swyddogaeth gwyddorau cymdeithasol wrth ddeall newid hinsawdd. Bydd pob tîm yn cynrychioli gwladwriaeth, bloc trafod, neu weithredwr di-wladwriaeth arall mewn trafodaeth tra bydd tîm arall yn darparu gohebiaeth ar weithgareddau'r drafodaeth trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Trwy gymryd rhan mewn dadl a gohebiaeth ffug bydd y disgyblion yn ennill mewnwelediad i'r trafodaethau hinsawdd yn Qatar yn Nhachwedd-Rhagfyr 2012.

Am fwy o wybodaeth am Ŵyl Gwyddorau Cymdeithasol yr ESRC gweler: www.esrc.ac.uk/news-and-events/events/festival/index.aspx

## Galwadau mawrion hydref 2012 i'r AHRC

Disgwylir galwadau am grantiau mawrion ar y themau canlynol yr hydref hwn: Gwyddoniaeth mewn Diwylliant, Gweddnewidiadau Digidol a Chyfieithu Diwylliannau.

Bwriad grantiau mawrion thematig yw cefnogi ceisiadau o faint ac uchelgais sydd y tu hwnt i sgôp grant AHRC cyffredin, a dylent arddangos potensial gweddnewidiol yn y maes thematig perthnasol. Mae'n debygol y bydd cyllid o oddeutu £1-2m ar gael ar gyfer cyfnodau o hyd at bum mlynedd i hyrwyddo 'newid cam', a disgwylir y bydd tua 2-4 grant mawr ar gael ar gyfer pob thema unigol.

Mae cynllun dwy ran ar gyfer gwneud ceisiadau yn cael ei baratoi ar hyn o bryd. Disgwylir lansiad yr alwad, gan gynnwys manylion y tair thema a'r broses ymgeisio, ym mis Medi. Am wybodaeth bellach ewch i www.ahrc.ac.uk/Funding-Opportunities/Research-funding/Themes/Pages/Theme-Large-Grants.aspx

### Ymweliad cyllidwr yr Academi Brydeinig

**Dydd Gwener 12fed o Hydref, 11-12:30, Medrus Mawr**

O'u grantiau datblygu bychain i'w cymrodoriaethau canol-gyrfa, aeddfed, a thu hwnt, mae'r Academi Brydeinig yn gyllidwr allweddol i ymchwilwyr yn y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol.

Bydd y Pennaeth Gwobrau Ymchwil, Dr Ken Emond, yn ymweld â Phrifysgol Aberystwyth ar ddydd Gwener y 12fed o Hydref i siarad am eu dulliau cyllido ac am y ffyrdd gorau i gyflwyno cais. Cynhelir cyflwyniad cyffredinol gyda chyfleoedd am gwestiynau o'r llawr ym Medrus Mawr rhwng 11:00-12:30.

I archebu lle cofrestrwch ar https://stafftraining.bis.aber.ac.uk/sd/list_courses.php

Bydd Dr Emond hefyd yn darparu cyngor unigol ar geisiadau grant trwy gyfarfodydd unigol. I drefnu cyfarfod ebostiwch research@aber.ac.uk

## Y Gyfraith a Throseddeg

Mae'r Athro Chris Harding o Adran y Gyfraith a Throseddeg wedi derbyn gwobr Ymddiriedolaeth Leverhulme, gwerth £87,743. Amcan y prosiect, a fydd yn rhedeg am ddwy flynedd, yw Esbonio a Deall Cydgynllwynio Cartel.

# Byd coll



*Llun o ddinas hynafol Sukkur a dynnwyd yn 1860, a leolir yn Nyffryn yr Indus, lleoliad gwareiddiad hynafol yr Harappa.*

Bu'r Athro Mark Macklin, yr Athro Geoff Duller a'r fyfyrwraig PhD Julie Durcan, yn rhan allweddol o'r ymgyrch i ddarganfod beth oedd yn gyfrifol am gwymp gwareiddiad trefol Indiaidd hynafol a diflaniad afon sanctaidd chwedlonol.

Cododd y gwareiddiad rhyw 4,500 o flynyddoedd yn ôl, a bu'n llewyrchus am 600 mlynedd cyn iddo ddadfeilio. Ymledodd gwareiddiad yr Harappan o Bacistan dros 625,000 o filltiroedd sgwâr i ddwyrain Afghanistan a gallai ymffrostio system blymwaith dan do, strydoedd grid a bywyd deallusol cyfoethog.

Tybiodd yr ysgolheigion bod caledi neu ymosodiad wedi achosi'r dirywiad, tra bod eraill yn awgrymu'r mai ffactorau amgylcheddol oedd wrth wraidd y cwymp. Casgliad yr ymchwilwyr a gymerodd ran yn yr astudiaeth ddiweddaraf, a gyhoeddwyd yn y '*Proceedings of the National Academy of Sciences*', yw taw newid yn yr hinsawdd oedd yn gyfrifol.

Roedd yr Harappan yn dibynnu ar gylch dibynadwy'r monsŵn i fwydo'r systemau afonydd ac ni ddyfeisiwyd system ddyfrhau cnydau. Fodd bynnag, wrth i amser fynd yn ei flaen, crebachodd tymor y monsŵn a sychodd yr afonydd gan achosi methiant cnydau. Nid oedd mwyach fwyd dros ben i gynnal y masnachwyr, yr arlunwyr a'r ysgolheigion, a chan hynny dechreuodd pobl adael y dinasoedd, gan fudo tuag at fasin yn Ganges, lle yr oedd hi'n glawio'n fwy rheolaidd. Ymrannodd y canolfannau trefol i ffurfio pentrefi bychain a threfi.

Darganfu'r ymchwilwyr weddillion daearegol yr afon sanctaidd Hindŵaidd chwedlonol Sarasvati yn yr anialwch sy'n amgylchynu'r dyffryn Ghaggar-Harka modern. Ni chyflenwir yr afon hon gan allyrion yr Himalaya, fel y rhagdybid, ond gan fonsŵn blynyddol, ac wrth i'r hinsawdd newid ni fedrai'r glaw gwannach gynnal yr afon, ac felly, mi ddiflannodd.

## Cig eidion iachach o laswellt tewach

Mae gwyddonwyr o IBERS wedi dechrau ar ymchwil i adnabod a deall yr amrywiaeth sydd yn y cynnwys braster ac asidau brasterog a berthyn i wneuthuriad glaswellt, ynghyd ag asesu effaith bresennol dulliau cynhyrchu cnwd porthi ar gyfansoddiad braster eidion.

Macrofaethyn hanfodol yw braster i'r diet dynol ac y mae'n angenrheidiol i gynnal bywyd. Fodd bynnag, nid yw pobl yn bwyta digon o frasterau defnyddiol fel asidau brasterog omega-3 amlannirlawn (polyunsaturated), a chan hynny mae'n rhaid inni archwilio ffyrdd i wella hyn. Un dull o gynyddu brasterau defnyddiol yn y diet yw cig eidion wedi'i fwydo â chnwd porthi, gan fod gwair yn cynnwys llawer o asid brasterog omega-3.

Bydd Sarah Morgan, myfyrwraig PhD a astudiodd ar gyfer ei gradd yn IBERS, yn treulio tair mlynedd yn gweithio'n agos gyda Celtic Pride. Mae wedi'i chyllido gan gynllun Ysgoloriaeth Sgiliau Economi Gwybodaeth (KESS).

## Cysylltiadau cymorth ymchwil

| Enw | Swydd | Ebost | Estyniad |
|---|---|---|---|
| **Swyddfa Ymchwil** | | | |
| Gary Reed | Pennaeth y Swyddfa Ymchwil | gar | 1789 |
| Hannah Payne | Swyddog FfRhY Monitro Ymchwil | hep | 8490 |
| Dafydd Roberts | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Celfyddydau a'r Dyniaethau | dir | 8787 |
| Jenny Deaville | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau Cymdeithasol | jfj | 1616 |
| Joanne Walker | **Swyddog Datblygu Ymchwil** - Cyfadran y Gwyddorau | jnw | 2947 |
| Huw Merfyn Hughes | Rheolwr Datblygu Ewropeaidd | hmh | 8742 |
| Anne Howells | Swyddog Datblygu Ewropeaidd | nsh | 4127 |
| **IBERS** | | | |
| Tim Williams | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | tdw | 8754 |
| Vacant | Rheolwr Datblygu Cronfa Ymchwil IBERS | | |
| **Cyllid Ymchwil** | | | |
| Peter Botwood | Pwynt Cyswllt Canolog | peb16 | 8485 |

Ceir Cymorth Ymchwil pellach drwy'r Pecyn Cymorth Ymchwil a'r Bas-data Cyfleoedd Cyllido Ymchwil (PIVOT) yn www.aber.ac.uk/cy/research/



# Cyfnewid



Yn y rhifyn hwn o "Cyfnewid" yr ydym yn falch o gyhoeddi'r newyddion diweddaraf am rai o'r datblygiadau yn CCS. Yr wyf yn hynod o falch o gael croesawu nifer o aelodau staff wedi'u cyllido'n allanol at CCS, a fydd yn gweithio gyda ni i ddarparu rhai o'r prosiect a dderbyniom gyllid ar eu cyfer.

Mae'r prosiectau a redir yn uniongyrchol gan CCS yn cefnogi blaenoriaethau allweddol y Brifysgol, yn enwedig:

- Gwella llwyddiant ymchwil
- Cynhyddu recriwtio Uwchraddedig
- Cadw a gwella rhagoriaeth yn y profiad myfyriwr; a
- Cynhyddu cyflogadwyedd graddedigion

Un o'r dulliau allweddol y mae CCS yn cefnogi academyddion i gyflawni amcan strategol y Brifysgol o wella llwyddiant ymchwil yw trwy gyllido ymchwil ar y cyd. Mae CCS wedi bod yn llwyddiannus wrth ddenu cyllid ar gyfer ymchwil ymarferol gan gynnwys prosiectau Llywodraeth Cymru a phroseict £12m y Rhwydwaith WISE, ac am fasnacheiddio ymchwil trwy fecanweithiau fel Cronfeydd Dilyn-ymlaen y Cyngor Ymchwil.

Datblyga CCS sawl perthynas gyda chwmniau bychain a mawrion. Er enghraifft, yr ydym wedi datblygu perthynas gref gydag EADS, sydd eisoes wedi arwain at nifer o ddoethuriaethau wedi'u cyllido'n gyflawn a phrosiectau ymchwil contract.

Rheolir y cynlluniau Mynediad at Radd Meistr (ATM) a'r Ysgoloriaethau Sgiliau Cyfnewid Ymchwil (KESS) gan CCS ac y maent yn cefnogi, yn uniongyrchol, gyrfa'r Brifysgol i gynhyddu'i niferoedd o fyfyrwyrwyr Uwchraddedig. Mae ATM a KESS hefyd yn cynnwys hyfforddiant mewn datblygiad sgiliau ar gyfer pob myfyriwr sy'n gofrestredig ar y cynlluniau hyn, gan gyfrannu at y profiad myfyriwr Uwchraddedig ac at gyflogadwyedd ar ôl graddio.

Mae datblygiad meddylfryd mentergarol yn rhan bwysig o gyflogadwyedd. Gweithia'r tîm Menter CCS gyda myfyrwyr a graddedigion i feithrin eu datblygiad mewn sgiliau perthnasol. Gweithiwn yn agos gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i wella'r gefnogaeth i fyfyrwyr â diddordeb mewn sefydlu busnes ac ar gyfer unrhyw un a fyddai'n cael bendith o ddatblygu meddylfryd ac ymddygiad mentergarol, sy'n cydgerdded yn agos gyda'r hyn y mae cyflogwyr yn ei ddeisyfu'n feunyddiol.

**Liz Flint,** Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori

## 'Cariad yw popeth'

Cynhaliodd Rhwydwaith Fusnes Prifysgol Aberystwyth un o'i nosweithiau mwyaf llwyddiannus ym mis Gorffennaf, pan wahoddwyd Andrew St. George i annerch 60 aelod o staff a phobl busnes ar y pwnc "It's all about Love! Leadership and Management in Organisations," gan godi enghreifftiau o ymarfer da o'i waith yn dehongli dulliau rheoli'r Llynges Frenhinol.

Yr ydym ar ben ein digon o gael cyhoeddi fod cyfle wedi codi ar gyfer myfyriwr graddedig o Adran y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth yn dilyn llwyddiant araith gyweirnod Christ Nott (Partner Hyn, Capital Law LLP) yn y Rhwydwaith Fusnes a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2012. Roedd Angharad Lewis yn llwyddiannus wrth ennill lle mewn ffug-dribiwnlys cyflogaeth a drefnwyd gan Capital Law LLP i gynnig cyfle i fyfyrwyr y gyfraith i brofi theori'r dosbarth wedi berthnasoli i sefyllfaoedd 'go iawn'.



*Chwith i'r dde: Yr Athro April McMahon, Dr Andrew St George, Mr Tony Orme & Mrs Liz Flint*

## Buddsoddiad Cronfa Her Prifysgol Aberystwyth (ACF) yn 'Codiki Cyfyngedig'

Ers 2010, mae'r Tîm Trosglwyddo Technoleg yn CCS wedi bod yn bwrw ati i fanteisio ar arbenigedd masnachol ac eiddo deallusol y Brifysgol trwy ddatblygu apiau i ffonau 'smart'. Ymysg y llwyddiannau a gynhyrchwyd eisoes mae'r *Cwrs Mynediad* a grewyd gan Chris Price a Neil Taylor yn yr Adran Gyfrifadureg, y Trawsnewidiwr Wyneb gan Berine Tiddeman o'r Adran Gyfrifiadureg a farmGRAZE gan y Tîm Datblygu Glaswelltir yn IBERS.

Mae apiau yn dechnoleg trosglwyddo cyffrous gan fod ganddynt y potensial i gynhyrchu refeniw o werthiant ac hefyd i arddangos arbenigedd y Brifysgol ger bron y gymuned ehangach o ddefnyddiwr ffoniau 'smart'.

Er mwyn manteisio ar gysyniadau ap yn effeithiol mae gofyn am adnoddau er mwyn nodi ("ffram gwifren"), llunio côd a marchnata'r cynnyrch ap. Dyma faes sy'n gwahodd cydweithrediad gyda'r sector breifat gan fod synergerdd naturiol rhwng yr arbenigedd prifysgol a gyflwynir trwy'r ap a'r strategaethau marchnata cystadleuol a defnyddir gan y cwmniau apiau.

Mae CCS wedi bod yn cydweithio ag entrepreneur o'r Trallwng, Andy Hughes, i adeiladu busnes a fydd yn masnacheiddio cysyniadau ap y Brifysgol. Mae hyn wedi arwain at ffurfio'r cwmni 'Codiki Cyfngedig'. Mae ACF y Brifysgol hefyd wedi bod yn cymryd rhan agos yn y broses hon, ac wedi buddsoddu £15,000 i ddechrau'r busnes.

Mae CCS yn falch iawn o gael cydweithio gyda Codiki ac yn edrych ymlaen at weithio gyda'r busnes i helpu staff a myfyrwyr y Brifysgol i ddod â'u syniadau i'r farchnad .

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI**

**Cyswllt Golygyddol:** Delyth Whitelaw, dte@aber.ac.uk Est: 8753

# Y Brifysgol yn lansio ei ap amaeth cyntaf



*Siaradwyr yn lansiad farmGRAZE. Yr Athro Wayne Powell, Cyfarwyddwr (IBERS), Dr Christianne Glossop (Prif Filfeddyg i Lywodraeth Cymru) a Dr Rhian Hayward, Trosglwyddiad Technoleg (CCS)*

Arddangosodd CCS ei atodiadau ffôn symudol ('apiau') amaethyddol newydd mewn digwyddiad yn Sioe Frenhinol Cymru 2012. Bydd 'mobileFARM', a grewyd gan dîm Trosglwydo Technoleg CCS, yn hyrwyddo apiau ar gyfer cynhyrchiant amaethyddol ac iechyd anifeiliaid. Yn yr un digwyddiad lansiwyd farmGRAZE – ap android ar gyfer rheoli pori.

Denodd y lansiad gynulleidfa dda i Bafiliwn Addysg y Brifysgol a chlywyd cyflwyniadau gan yr Athro Wayne Powell (IBERS), Dr. Rhian Hayward (CCS), Huw Powell (Canolfan Datblygu Glaswelltir, IBERS) a Dr Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol i Lywodraeth Cymru.

Pwysleisiodd y siaradwyr am yr angen am apiau o safon uchel i wella cynhyrchioldeb ar y tir mewn cyfnod heriol i amaethwyr a'r economi. Canodd Dr Glossop glodydd mobileFARM am fod ar flaen y gâd yn y defnydd o gyfryngau newydd mewn amaeth.

Cyn lansiad farmGRAZE cynhaliwyd sesiwn ffilmio gyda *Ffermio*, y gyfres amaeth ar S4C, a ddarlledwyd ar y 30ain o Orffennaf. Denodd farmGRAZE lawer o sylw'r wasg yn ystod diwrnod y lansiad hefyd. Gellir pwrcasu'r fersiynau ysgafn a llawn o farmGRAZE bellach ar arwerthle apiau Google Play.

Mae CCS yn falch i ychwanegu at eu portfolio cynyddol o apiau ac i gefnogi'r Brifysgol wrth drosglwyddo technolegau a gallu i mewn i'r gymuned apiau fyd-eang.

Wele mobileFARM: www.mobilefarmapps.com

# Cyfleoedd KESS ac ATM

Amcan Mynediad at Raddau Meistr (ATM) ac Ysgoloriaethau Sgiliau Economi Gwybodaeth yw adeiladu cysylltiadau rhwng busnesau a phrifysgolion ac i hyrwyddo ymchwil sy'n canolbwyntio ar fusnes. Mae prosiectau wedi'u cysylltu at raddau Meistr wedi'i dysgu (ATM) neu raddau Meistr ymchwil trwy radd MPhil (KESS). Bydd yr alwad nesaf am geisiadau prosiect oddi wrth academyddion yng ngwanwyn 2013, ar gyfer prosiectau fydd yn dechrau yn Hydref 2013. Dyma fydd cyfle olaf y Brifysgol i fanteisio ar y ddau gynllun poblogaidd hyn gan y bydd y cyllid yn dod i ben, felly peidiwch â cholli'ch cyfle.

Gwybodaeth bellach: Katen Hutton (ATM) / Lewis Richards (KESS) ar business@aber.ac.uk / 01970 622385

Cyllidir KESS ac ATM yn rhannol gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (ESF) trwy raglen Gyfluniad yr Undeb Ewropeaidd, rhaglen a weithredir gan Lywodraeth Cymru.

# Croeso i staff newydd yn CCS



*O'r chwith ir dde Wirat Prapakamon (Micky), Michelle Symes a Gwern Hywel.*

Carai CCS groesawi tri aelod newydd o staff i'r tîm: Gwern Hywel, Michelle Symes a Wirat Prapakamon (Micky). Mae Gwern a Michelle wedi ymuno â thîm yr Ysgoloriaeth Sgiliau Cyfnewid Gwybodaeth (KESS) fel Swyddogion Gweinyddol, tra mae Micky yn Swyddog Gweinyddol ar gyfer Mynediad i Radd Meistr (ATM).

# Myfyriwr dan Hyfforddiant yn "Ddyn dweud IE"



*Kristian Crowshaw*

Mae'r Myfyriwr dan Hyfforddiant mewn Mentergarwch, Kristian Crowshaw, wedi cymryd lleoliad Blwyddyn yn y Gweithle, fel rhan o'i radd Fusnes, i weithio yng nghanol Llywodraeth Cymru. Bydd yn cynnig "persbectif myfyriwr" ar y Strategaeth Mentergarwch Ieuenctid dros Gymru (YES).

Mae strategaeth YES yn gyrru pob gweithgaredd menter mewn ysgolion, colegau a phrifysgolion yng Nghymru ac yn cyfeirio cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer llawer o'r cynlluniau addysg mentergarwch sydd wedi dod yn adnodd bwysig i fyfyrwyr a graddedigion Aber dros y blynyddoedd.



*Ruth Fowler*

# WISE: Cam doeth

Mae Ruth Fowler wedi'i phenodi'n Gynorthwyydd Gweinyddol ar y Rhwydwaith WISE yn CCS. Bu Ruth yn gweithio yn y Brifysgol ers tair mlynedd, yn gyntaf gydag Adran y Gymraeg, ac yna gyda Swyddfa Datblygu a Chysylltiadau Graddedigion.

**GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI**

Am wybodaeth neu gefnogaeth yn ymwneud â chyfleoedd cyfnewid gwybodaeth cysylltwch â ni, neu dewch i'n swyddfeydd ar lawr cyntaf y Ganolfan Ddelweddu.

Gwasanaeth Ymholiadau Canolog CCS: ccservices@aber.ac.uk - ext 2385 - www.aber.ac.uk/ccs

ERTHYGL NODWEDD

# Beth yw'r dyfodol y carem weld? Rio +20



Credit: *Mario Roberto Durán Ortiz*

Dr Carl Death, Darlithydd yn yr Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, a Dr Mark Whitehead, Darllennydd a Chyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu yn y Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, yn trafod Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygiad Cynaladwy a gynhaliwyd i nodi 20 mlwyddiant Uwch-gynhadledd y Ddaear Rio yn 1992.

Roedd diwedd y gwanwyn a dechrau'r haf yn gyfnod o dyndra mawr, gyda thudalennau blaen y papurau yn drwch o newyddion am yr etholiadau yng Ngroeg, y terfysg yn Syria, a'r llifogydd yng Nghymru. Hefyd, roedd y paratoadau ar gyfer dathliadau'r Jiwbilî Brenhinol, Euro 2012 a'r Gemau Olympaidd. Nid oes ryfedd fod Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar Ddatblygiad Gynaliadwy yn Rio de Janeiro i drafod cytundeb fyd-eang ar ddatblygiad cynaliadwy wedi digwydd yn ddiarwybod i lawer. Nododd y gynhadledd ugain mlwyddiant Uwch-gynhadledd y Ddaear Rio, ac roedd Rio +20 yn gyfle i asesu'r cynnydd a wnaed tuag at gyflawni cynaladwyedd cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Daeth y gynhadledd i ben ar ddydd Gwener, 22 Mehefin gan fabwysiadu testun a gytunwyd arno, sef "*The Future We Want*".

Roedd y digwyddiad hwn yn achlysur mawr mewn gwleidyddiaeth amgylcheddol ryngwladol, gyda 191 o wladwriaeth ac arsyllwyr, ynghyd â 44,000 o gyfranwyr swyddogol yn bresennol. O ystyried maint y sialensau a wynebwyd gellir rhagdybied y cafwyd trafodaethau o swmp a sylwedd yn Rio rhwng y 13-22 o Fehefin. Ond, mae'n ffaith drist fod Rio+20 wedi pasio o dan y radar am reswm da; yr oedd hi'n amlwg yn gynnar iawn nad oedd dim o sylwedd yn mynd i gael ei drafod na'i benderfynu gan y dirprwyon rhyng-wladwriaethol.

Maglwyd y trafodwyr mewn dadleuon diddiwedd a chylchynol am atalnodi a brawddegu am fisoedd. Gobeithiwyd y byddai'r gynhadledd yn torri trwy'r sefyllfa ddiddatrys mewn nifer o feysydd allweddol, ond wrth i'r dadleuwyr ddod yn fwyfwy disymud yr oedd hi'n eglur mai'r gorau y gellid gobeithio amdano oedd y byddai Rio+20 yn atal rhag datod cytundebau oedd wedi para ers 1992.

Felly, roedd yn gampwaith ddiplomatig pan gytunodd y cynrychiolwyr ar fersiwn byrrach o'r testun a ddrafftiwyd gan Brasil. Trwy daflu ymaith yr adrannau mwyaf dadleuol, a thrwy fyrhau'r ddogfen i 53 tudalen, yr oeddent wedi cynhyrchu casgliad oedd yn foddhaol i bawb. Disgrifiodd yr ymgyrchydd, George Monbiot'r ddogfen fel "283 paragraphs of fluff."

Er fod diffyg uchelgais *The Future We Want* yn destun syfrdandod i lawer, pwyntia hefyd at symud pwysig yn natur a phwrpas cynhadleddau a thestunau amlochrog. Nododd un cynrychiolydd NGO profiadol, "Mae'n hanfodol i beidio cyfystyrru Rio+20 â dogfen ... casgliad o bobl yw Rio+20, catalydd all arwain at weithgaredd." Dim ond wedi i'r testun ennill sêl bendith pawb, a phan sylweddolodd y diplomyddion a'r cynrychiolwyr fod ganddynt dridiau i'w llenwi, fu i wir amcan y gynhadledd ddod i'r amlwg.

Yn nghyd-destun arafwch y daith tuag at gytundebau sylweddol yn Rio+20, mae rhai yn honni fod ambell NGO Amgylcheddol yn dechrau ail-asesu eu hymdrechion diplomyddol, ac yn gynhyddol yn mabwysiadu meddylfryd mwy gwrthryfelgar yn eu hymgyrch i sicrhau planed fwy cynaliadwy.

Adroddodd y Cenhedloedd Unedig bod 712 o ymrwymiadau gwirfoddol wedi eu pasio yn ystod y gynhadledd gan lywodraethau, NGOs, 500 o gwmniau a phrifysgolion. Ond dim ond i 7% o'r rhain cafwyd ymrwymiad gan lywodraethau. Dengys y cynlluniau hyn ym mha le y mae'r gwir egni a'r cynnydd mewn datblygu cynaliadwy.

Cynrychiolodd Gweinidog Amgylcheddol Llywodraeth Cymru, John Griffiths, Gymru yn Rio. Ers ei sefydlu, mae'r Cynulliad wedi'i ymrwymo'n gyfansoddiadol i sicrhau cynaladwyedd ac y maent ar hyn o bryd yn trafod mesur cynaladwyedd newydd. Cyn gadael am Rio, dywedodd Griffithis ei fod yn gobeithio siarad am y cynydd mawr y mae Cymru wedi'i wneud yn ei hymgyrch i adeiladu



cymdeithas fwy cynaliadwy. Gellir gweld y cynnydd hyn yn eu cwricwlwm blaengar, Addysg ar gyfer Datblygiad Cynhaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ynghyd â chynlluniau fel Arbed, sydd wedi helpu'r sawl sy'n byw mewn llety cymunedol i wella effeithlonrwydd ynni eu cartrefi.

Pan ystyrid yr amrywiol gynlluniau i ddelio â chadwraeth, diogelwch dŵr, defnydd cynaliadwy o adnoddau a thrafnidiaeth mewn cymunedau ar draws y byd, nid yw dyfodol gwleidyddiaeth economaidd y byd yn edrych hanner mor llwm ag yr awgryma methiant Rio+20. Gall Gymru ymfalchïo yn y ffaith fod y Rhwydwaith o Lywodraethau Rhanbarthol ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy, corff mae'n aelod ohonno, wedi cael ei chydnabod yn ffurfiol ar ddiwedd dogfen cynhadledd Rio. Dylai'r gydnabyddiaeth hon ddarparu sail mwy effeithiol ar gyfer datblygiadau blaengar o fewn llywodraeth ranbarthol i ddylanwadu ar agenda datblygiad cynaliadwy rhyngwladol.

Fodd bynnag, mae llawer o gwestiynau i'w hateb o hyd:

Heb broses amlochrog rhynglywodraethol effeithiol, pwy fydd yn sicrhau na fydd y gwledydd a'r cymunedau tlotaf ddim yn mynd yn anghof?

Sut ydym ni'n osgoi dosbarthiad annheg effeithiau dirywiad amgylcheddol a newid hinsawdd?

A fydd hawliau a dyletswyddau pawb yn cael eu diffinio a'u hamddiffyn?

A fydd y taleithiau a'r corfforaethau gwaethaf yn atebol am eu gweithredoedd?

Dyma pham, er gwaetha'r rhwystredigaeth a deimla llawer am Rio+20, na ddylem roi'r gorau i'r prosiect o ddatblygu ymateb fyd-eang yn deg ac ar y cyd i'r problemau cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol mwyaf dybryd sy'n wynebu'r blaned.



*Credit: Jens Hausherr*

NEWYDDION

# Tair mlynedd o Artistiaid Preswyl yng Nghanolfan y Celfyddydau

Mae dros drideg artist o bedwar ban byd bellach wedi cael budd o gefnogaeth cynllun Artistiaid Preswyl Canolfan y Celfyddydau. Mae cyhoeddiad newydd ar gael sydd bellach yn adrodd hanes llwyddiannau tair mlynedd gyntaf y cynllun gan drafod gwaith eangfrydig yr artistiaid.



*'Bad In, Good Out – acrylics on earthenware and kitchen stool made by Grandpa' gan Rikka Makikoskela, sy'n byw ac yn gweithio yn y Ffindir ac sydd wedi cynhyrchu nifer o gerfluniau yn ystod ei chyfnod preswyl yng Nghanolfan y Celfyddydau.*

Amcan y cynllun oedd caniatáu i artistiaid dreulio cyfnod o dri mis neu fwy yn un o Stiwdios Creadigol arobryn Canolfan y Celfyddydau, i ffocysu ar eu hymchwil eu hunain ac i ddatblygu dulliau ymarfer celfyddydol unigryw. Dyma'r unig raglen o'i math yng Nghymru, ac fe'i cyllidir gan nifer o gronfeydd elusennol a thrwy gefnogaeth Canolfan y Celfyddydau.

www.aberystwythartscentre.co.uk/cy/node/1957

# Ailddarganfod gweithiau coll

Mae Dr David Russell Hulme, Cyfarwyddwr Cerdd Prifysgol Aberystwyth, wedi atgyfodi deuawd o *HMS Pinafore* gan Gilbert and Sullivan nas clywyd ers 1878. Torrwyd y ddeuawd o'r perfformiad cyntaf, ac yna aeth ar goll, ond mae David wedi gweithio o rannau cerddorfaol anghyflawn a ailddarganfuwyd i ailgreu'r melodi lleisiol a'r sgôr lawn. Perfformiwyd y gwaith am y tro cyntaf gan gwmni proffesiynol preswyl Gŵyl Gilbert a Sullivan Ryngwladol Buxton.





*Poster cynnar yn hysbysebu HMS Pinafore. Torrwyd y ddeuawd 'goll' cyn noson agoriadol yr operetta.*

David hefyd yw'r buddugwr yng Ngwobr Glyndŵr Ymddiriedolaeth y Tabernacl am Gyfraniad Eithriadol i'r Celfyddydau yng Nghymru. Cyflwynwyd y wobr gan yr Is-Ganghellor yng Ngŵyl Machynlleth ar ddydd Gwener y 24ain o Awst.

Mynegodd David ei lawenydd wedi iddo dderbyn y Wobr, gan ddweud, 'Mae'r wobr hon yn fwy nac anrhydedd bersonol sylweddol. Y mae hefyd yn gydnabyddiaeth o'r hyn a gyflawnwyd gan y Brifysgol a'i chefnogwyr, sydd oll yn gwneud Aber yn lle mor ffyniannus ar gyfer cerddoriaeth. Fe'm ganed ym Machynlleth, ac euthum i'r ysgol yno. Dwi'n teimlo'n hynod falch o gael dod adref ar yr achlysur arbennig hwn."

NEWYDDION

# Cyrch Cymreig i'r gofod


*Llun a dynnwyd o'r balŵn o uchder o 21 milltir (34km)*

Connor Goddard, myfyriwr Cyfrifiadureg yn ei ail flwyddyn, oedd y meddwl y tu ôl i gyrch diweddar Sir Benfro i'r gofod, pan lansiodd ysgol uwchradd yn Hwlffordd ei balŵn tywydd ei hun.

Daeth y syniad uchelgeisiol i Connor wrth iddo astudio ar gyfer ei Lefel-A yn Ysgol Tasker Milward, a chynigiodd ef ger bron ei athro ffiseg yn yr ysgol, Dorian Pascoe, sy'n raddedig o Brifysgol Aberystwyth. Dychwelodd Connor i'w ysgol dros yr haf i gynorthwyo gyda'r lansiad ac olrhain taith y balŵn.

Gosodwyd camera digidol ar y balŵn, a thynnodd hwnnw ddelweddau trwy gydol yr esgyniad. Ar y peiriant hefyd oedd synhwyryddion electronig i fesur tymheredd a gwasgedd atmosfferig, a modiwl GPS oedd yn galluogi i'r tîm ddilyn trywydd y balŵn wrth iddo esgyn.


*Connor Goddard*

Dringodd at uchder o 20 milltir (33km), a recordiodd dymheredd mor isel â -40˚C. Dengys y delweddau a dynnwyd o ymyl y gofod systemau tywydd a ffurfiannau cymylau, tro'r Ddaear, gwawl glas yr atmosffer, a duwch y gofod.

Ar ôl hedfan am fwy na thair awr, cyrhaeddodd y balwn ei uchder eithaf, a ffrwydrodd. Syrthiodd y prif lwyth gyda pharasiwt a glaniodd mewn cae o wartheg ger Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin.

"Yr oeddem yn olrhain ei daith yr holl ffordd i'r ddaear ond ni fedrem ddeall pam ei fod o hyd yn symud wedi iddo lanio," esboniodd Connor, "Pan gyrhaeddom y lanfa canfum gae yn llawn o heffrod. Mae'n rhaid eu bod wedi rhoi tro ar chwarae pêl droed gydag ef!"

Tra'n siarad wedi'r cyrch, dywedod Dorian Pascoe; "Mae'r ffaith ein bod wedi llwyddo i gymryd lluniau yn y gofod yn anhygoel. Bydd y cyfoeth o ddata a gasglwyd yn amhrisiadwy, a bydd yn caniatáu inni greu gwersi a gweithgareddau cyffrous ar gyfer dosbarthiadau gwyddoniaeth ar gyfer pawb o Flwyddyn 7 i Flwyddyn 13. Bydd pawb yn medru edrych ar ddata am fuanderau, proffilio tymheredd a chyfraddau esgyniad a syrthiad gan brofi'r cyffro ychwanegol o gofio mai ein myfyrwyr ni a fu'n casglu'r wybodaeth."

## Myfyrwyr Sefydliad Haf Fulbright yn ymweld â PA



Dros yr haf croesawodd Prifysgol Aberystwyth grŵp o fyfyrwyr israddedig Americanaidd unwaith eto. Treuliasont bythefnos yma fel rhan o raglen Sefydliad Haf Fulbright Cymru 2012.

Cynlluniwyd y Sefydliadau Haf i gyflwyno'r DG i'r myfyrwyr tra'n datblygu eu sgiliau arweiniad ac academaidd. Wedi'i gynnal gan Brifysgolion Caerdydd, Bangor ac Aberystwyth, roedd y cwrs chwech wythnos yn cynnwys arbenigedd ymchwil a dysgu sy'n cael ei gydnabod yn rhyngwladol o eiddo pob un o'r sefydliadau addysg, gyda'r myfyrwyr yn astudio hanes Cymru, diwylliant, gwleidyddiaeth a daearyddiaeth, er mwyn astudio beth oedd dylanwad diwydiant ar dirwedd a phoblogaeth y wlad.

## Gŵyl Ddrama Ryngwladol i Fyfyrwyr

Dewiswyd Cwmni Theatr Pot of Thieves i gystadlu yn rowndiau terfynol yr Ŵyl Ddrama Ryngwladol i Fyfyrwyr yn 2012 yn Sheffield, gan gymryd eu lle ymhlith y gorau o blith perfformwyr myfyrwyr y llwyfan rhyngwladol. Llwyfannodd y Cwmni'r perfformiad cyntaf un o ddrama heb ei chyhoeddi o eiddo Howard Barker: *Five Names*. Gellir darllen mwy am Pot of Thieves trwy glicio www.potofthieves.co.uk

# PAWS ar restr fer am wobr

Mae PAWS (Diffodd a deffro dros dro) Prifysgol Aberystwyth, a gyllidir gan JISC, ar restr fer y wobr 'Green ICT' y Green Gown.

Gwna'r prosiect PAWS ddefnydd o raglen gyfrifiadurol sy'n arbed ynni trwy ddiffodd cyfrifiaduron segur. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig arbedodd y Brifysgol oddeutu £50,000 o gostau trydan a 325 tunnell o allyriadau $CO_2$.

Yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus bydd prosiect i gyflwyno PAWS i gyfrifiadur pob aelod o staff yn dechrau yn y dyfodol agos. Gyda'r dosbarthiad i gyfrifiaduron staff, gobeithir y bydd y Brifysgol yn cyflawni oddeutu £100,000 o arbedion trydan yn flynyddol yn y dyfodol.

Bellach yn eu 8fed blwyddyn, mae'r Gwobrau Green Gown yn cydnabod mentrau cynaladwyedd ardderchog sydd ar waith mewn prifysgolion a cholegau ar draws y DG. Cyhoeddir buddugwyr/ceisiadau uchel ei safon yn Seremoni Wobrwyo'r Green Gown, a gynhelir ym mis Tachwedd.

## Diwydiannau Cyfryngau Creadigol Tsieina

Aberystwyth yw un o'r 12 Sefydliad Addysg Uwch yn y DG (a'r unig un yng Nghymru) sy'n cymryd rhan mewn prosiect tan arweiniad y Cyngor Prydeinig ar Ddiwydiannau Cyfryngau Creadigol yn Tsieina. Tan arweinaid Dr Jamie Medhurst, Pennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, bydd y Brifysgol yn cymryd rhan mewn symposia gyda nifer o brifysgolion Tsieiniaidd uchel eu parch a fydd yn arwain at gydweithrediad pellach, ymchwil, a deialog rhwng Sefydliadau Addysg Uwch yn y DG a Tsieina. Am fwy o fanylion wele: www.britishcouncil.org/china-education-higher-media.htm

NEWYDDION MYFYRWYR

# Gair gan y Llywydd



Wel, dyma ni ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd ac mae gennym lawer o newidiadau cyffrous ar y gweill.

Bydd rhai ohonoch wedi sylwi ein bod yn mynd trwy adnewyddiad mawr. Dechreuasom hyn trwy newid ein henw o Urdd Myfyrwyr Aberystwyth i Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (AUSU). Gyda hyn mae gennym ymddangosiad newydd, gyda brandio newydd, ac mae gennym wefan newydd ar y ffordd a fydd yn ein galluogi i ryngweithio â myfyrwyr mewn modd mwy cynhwysfawr nac erioed o'r blaen.


Ar yr un pryd yr ydym wedi bod yn gweithio ar nifer o newidiadau mawr i Adeilad yr Undeb ei hun. Wedi blynyddoedd o dan ddatblygiad yr ydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddechrau gweddnewid y lle rhywfaint. O ystyried fod myfyrwyr bellach yn talu £9k i fynychu'r brifysgol, yr ydym ni a rheolwyr y Brifysgol yn cytuno ei fod yn gymwys ein bod ni'n cael Undeb Myfyrwyr o'r safon uchaf er mwyn hyrwyddo ymhellach y profiad myfyriwr arbennig yn Aberystwyth. Mae gennym arwyddion newydd trwy'r adeilad, lloriau effaith pren i'w gweld mewn llawer o ardaloedd, ac mae ymron i bob ystafell wedi cael côt newydd o baent i oleuo'r lle. Rydym hefyd yn gwerthu coffi ffres yn ein bar, sydd ei hun wedi'i adnewyddu gyda chelfi newydd. Gwerthir yno hefyd frechdanau gyda llenwadau a gynlluniwyd yn arbennig ar ein cyfer gan ein cyfeillion yn Spartacus. Yr ydym hefyd wedi symud y Swyddogion Myfyrwyr allan o'r 'Bat Cave', fel y gelwir y lle gynt ar dafod leferydd (sef y swyddfeydd yng nghefn yr adeilad), i swyddfa newydd cynllun agored ym mlaen yr adeilad, a fydd yn caniatáu inni amlhau ein hargaeledd i fyfyrwyr yn fwyfwy drachefn.

Dechreuodd bywyd Prifysgol yn gynnar gydag ein Wythnos Chwaraeon flynyddol, lle cafodd myfyrwyr y cyfle i ymuno â chlybiau chwaraeon, a rhoi tro ar gampau nad oeddent wedi ceisio o'r blaen. Hyd yn oed os nad oeddent wedi chwarae unrhyw chwaraeon o'r blaen, roedd croeso iddynt i roi tro ar weithgareddau'r clybiau amrywiol, o rygbi safonol i griced i lacros i frisbi eithafol!

Trwy gydol Wythnos y Glas buom yn hyrwyddo Arwyr y Glas. Buont ar hyd a lled y campws yn gwisgo crysau t melyn llachar ac yn cynorthwyo'r myfyrwyr i setlo yn Aberystwyth.

Dyma un o wythnosau prysuraf y flwyddyn, ond yr ydym wedi ein cyffroi'n lan o gael cyflwyno'r holl gyfleoedd a gynnigir gennym yn yr Undeb i fintai newydd o fyfyrwyr.

**Ben Meakin**
Llywydd, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth




*Swyddogion Sabbothol yr AUSU(chwith i'r dde): Laura Dickens, Swyddog Cymorth Myfyrwyr; Jess Leigh, Swyddog Addysg; Ben Meakin, Llywydd; Carys Thomas, Materion Cymraeg a Llywydd UMCA; ac Ioan Rhys Evans, Swyddog Gweithgareddau*

# Cyfryngau Myfyrwyr Aberystwyth

Amlinella Steffan Storch gynlluniau'r grŵp cyfryngau myfyrwyr newydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.



Cyfryngau Myfyrwyr Aber (ASM) yw'r gyfundrefn gyfryngau newydd i fyfyrwyr yn Aberystwyth. Yr ydym yn cynhyrchu *The Courier*, papur newydd y myfyrwyr; yn rhedeg yr orsaf radio, *Bay Radio*; a'r orsaf deledu newydd i fyfyrwyr, *BayTV* – gellir gweld pob un o'r cyfryngau hyn ar ein gwefan, www.aberstudentmedia.com.

Yr ydym yn gyfundrefn integredig, sy'n golygu mai dim ond unwaith sy'n rhaid i fyfyrwyr ymuno â ni er mwyn cael y cyfle i ysgrifennu erthyglau i'r papur newydd, i ymddangos ar yr awyr ar yr orsaf radio neu i gynhyrchu rhaglenni ar gyfer yr orsaf deledu. Yn ogystal â'r cyfle a rydd y gyfundrefn i fyfyrwyr i gynnig gwasanaeth gwerthfawr i'r campws ac i gael hwyl ar yr un pryd, darpara'r gweithgaredd brofiad buddiol i'r myfyrwyr, a fydd yn ddefnyddiol iawn iddynt yn y dyfodol, boed mewn gyrfaoedd gyda'r cyfryngau neu yrfa arall.

Gwasanaethu myfyrwyr yw pennaf amcan y cyfryngau myfyrwyr yn Aberystwyth, ond a ninnau'n byw mewn tref fechan lle ceid cymuned brifysgol glos, yn fynych mae hi'n wastraff amser ceisio gwahaniaethu rhwng newyddion myfyrwyr, staff, a phobl lleol. Y llynedd, *The Courier* oedd yr unig gyfrwng newyddion i ddarparu gohebaeth fyw o ganlyniadau'r etholiadau lleol, ac yn fynych y papur hwnnw oedd y cyntaf i adrodd newyddion y dref. Y flwyddyn nesaf bydd ASM yn parhau i ddarparu newyddion a diddanwch i Aberystwyth a chroesewir pobl nad ydynt yn fyfyrwyr i gyfrannu eu syniadau, eu barn, a'u herthyglau.

Fel Cadeirydd, fi fydd y pwynt cyswllt rhwng y Brifysgol a phwyllgor yr ASM, gan weithio i adeiladau cysylltiadau rhwng adrannau'r Brifysgol a'r cyfryngau myfyrwyr i barhau â'r llwyddiant aruthrol a wnaed gan *The Courier* a *Bay Radio* yn y flwyddyn ddiwethaf.

**Steffan Storch,** Cadeirydd, Cyfryngau Myfyrwyr Aberystwyth

ADNODDAU DYNOL

# Cronfa Hyrwyddiad Dysgu ac Addysgu

Cyllidwyd ystod anarferol o eang o brosiectau eleni gan y Gronfa Hyrwyddiad Dysgu ac Addysgu – rhaglenni meddalwedd sy'n addysgu am esblygiad pysgod, gwneuthur marcio'n haws, cynorthwyo myfyrwyr i gymryd gwell nodiadau mewn darlithoedd, dysgu dulliau ystadegol sylfaenol – ond roedd un peth yn gyffredin iddynt oll; yr oeddent oll yn manteisio ar dechnoleg flaengar er mwyn hyrwyddo addysgu.

Gan gynnig hyd at £2000, amcan y gronfa yw cefnogi prosiectau sy'n gwella dysgu ac addysgu. Mae'r Gronfa'n canolbwynio ar feysydd a bwysleisir yn Strategaeth Ehangu Mynediad, Addysgu, a Dysgu Aberystwyth / Bangor, the fund is designed to do what it says on the tin, back projects that improve learning and teaching. Rhaid i unrhyw gais am y nawdd yma fod yn rhai sylweddol sy'n cynnwys mwy nag un adran academaidd neu fod yn ddefnyddiol ar draws sawl adran.

Pe carech chwi wybod mwy am y Gronfa Hyrwyddiad Dysgu ac Addysgu ewch at www.aber.ac.uk/cy/cdsap/funding/ltef/.

# Cyfraniadau eithriadol i ddysgu ac addysgu


Dd i'r Ch Dr Lynda Thomas, Ms Kerry Lewis a Dr Hannah Dee.

Mae Dr Hannah Dee (Cyfrifiadureg), Ms Kerry Lewis (Y Gyfraith a Throseddeg) a Dr Lynda Thomas (Cyfrifiadureg) wedi derbyn Cymrodoriaethau Dysgu ac Addysgu mewn cydnabyddiaeth o'u cyfraniadau eithriadol i ddysgu ac addysgu yn y Brifysgol.

Dr Hannah Dee yw sylfaenydd a chadeirydd Grŵp y Gymdeithas Gyfrifiaduron Brydeinig ar gyfer Colocwiwm Lovelace i Wragedd Israddedig, sef prif ddigwyddiad y DG ar gyfer myfyrwyr benywaidd sy'n astudio pynciau technegol. Mae Dr Dee hefyd yn aelod o bwyllgor Athena Swan sy'n gweithio tuag at wobr efydd.

Darlithydd yn y Ganolfan ar gyfer Ymarfer Cyfreithiol yn Adran y Gyfraith a Throseddeg yw Ms Kerry Lewis. Wedi nifer o flynyddoedd o weithio mewn swyddfa gyfreithiol breifat y mae bellach yn addysgu ystod o fodiwlau ar y Cwrs Ymarfer Cyfreithiol a hefyd yn goruchwylio traethodau hir i raddau meistr. Y mae hefyd yn rhan allweddol o'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu adrannol a'r Pwyllgor Ymgynghorol i Staff a Myfyrwyr.

Mae Dr Lynda Thomas wedi bod yn dysgu fel Cymrawd yn yr adran Gyfrifiadureg ers 1999. Cyhoeddod dros 30 papur ym maes 'ymchwil addysg mewn cyfrifiadureg'. Mae'n ymgynghorydd academaidd i'r adran Gyfrifiadureg, yn gydlynydd cynllun ar gyfer y BSc mewn Cyfrifiadureg, ac wedi cadeirio'r Pwyllgor Dysgu ac Addysgu ers rhai blynyddoedd.

Eleni gwelwyd y nifer mwyaf erioed o gynorthwywyr dysgu ôl-raddedig yn derbyn Gwobrau i Addysgwyr Cynorthwyol Ôl-raddedig Rhagorol.

Y buddugwyr eleni yw Fergus Guppy (Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff), Chikara Hashimoto (Gwleidyddiaeth Ryngwladol), Robert Morris (Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer Corff), Nitin Niak (Cyfrifiadureg), Jonathan Roscoe (Cyfrifiadureg), Herman Salton (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) Damien Van Puyvelde (Gwleidyddiaeth Ryngwladol) ac Adam Vellender (Sefydliad Mathemateg a Ffiseg).

Cyflwynwyd y gwobrau hyn yn ystod wythnos graddio eleni. Gellir gweld gwybodaeth bellach ar www.aber.ac.uk/cy/cdsap/awards/aultf/

## Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP), Pwyntiau Cyfrannu a Chynyddrannau Cyflymedig

Yn ystod 2012 mae Prifysgol Aberystwyth wedi adolygu ac ailstrwythuro rhai o'i pholisïau gwobrwyo a chydnabyddiaeth er mwyn cyflwyno dulliau a fydd yn cydnabod pawb o'r staff am eu perfformiad penigamp.

### Datblygu Staff ac Adolygu Perfformiad (DSAP)

Mae'r DSAP yn awr ar waith ar draws y Brifysgol. Am wybodaeth wele www.aber.ac.uk/cy/sdpr

### Pwyntiau Cyfrannu a Chynyddrannau Cyflymedig

Gellir cyflwyno ceisiadau i'w hystyried gan y panel Dyrchafiadau am Bwyntiau Cyfrannu a Chynyddrannau Cyflymedig gan reolwyr a staff. Dyddiad cau'r ceisiadau yw 10 o Hydref 2012.

Gellir canfod gwybodaeth bellach am y broses gan gynnwys ystodau amser ar www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/contribution

### Band cyflog proffesiynol

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaethau wedi rhoi eu sêl bendith yn ddiweddar ar Fand cyflog proffesiynol, a chyhoeddir y manylion am y band hwn i staff proffesiynol yn y dyfodol agos.

### Adolygiad o Ddyrchafiadau Academaidd

Cynhaliwyd adolygiad o Ddyrchafiadau Academaidd ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Am fwy o wybodaeth am yr adolygiad a'i ganlyniadau, gan gynnwys ystodau amser, wele:

www.aber.ac.uk/cy/hr/employment-information/academic-promotions/review/

### Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach am y rhain ac am faterion gwobrwyo a chydnabod eraill ewch at wefan Adnoddau Dynol (www.aber.ac.uk/cy/hr) neu cysylltwch trwy e-bost hr@aber.ac.uk neu'r ffôn (01970) 628555.

# Penodiadau uwch



Penodwyd **Peter Curran** yn Gyfarwyddwr Cyllid y Brifysgol. Yn ddirprwy Brifathro Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, bu Peter yn allweddol yn arwain y cynllun i sicrhau cyllid ar gyfer prosiect cyfalaf mawr newydd, sydd wedi darparu cyfleusterau *conservatoire* o'r radd flaenaf. Bu'n gyn-fyfyriwr yn Aber (Economeg 1985), ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Grŵp Cyfarwyddwyr Cyllid Prifysgolion Prydain. Does gan Peter ddim dyddiad cychwyn union eto ond bydd yn treulio amser yn Aberystwyth yn ystod yr hydref.



Bydd **Lucy Hodson** yn ymuno â'r Brifysgol fel Cyfarwyddwr Cynllunio ar 1 Tachwedd. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Cynllunio Strategol ym Mhrifysgol De Montfort, a chyn hynny bu Lucy yn gweithio ym Mhrifysgol Rhydychen a gyda'r Sefydliad Peirianneg Meinwe a Meddygaeth Atgynhyrchiol yng Ngholeg Imperial, Llundain. Graddiodd yn Rhydychen (Hanes Modern ac Almaeneg 1985), cwblhaodd MA mewn Astudiaethau Islamaidd yn Birmingham yn 1986 ac mae'n gweithio tuag at PhD mewn Cysylltiadau Rhyngwladol yn St Andrews. Hi yw Cadeirydd presennol Grwp Gweithredol y Cynllunwyr Cenedlaethol - corff sy'n cynrychioli cynllunwyr addysg uwch y DU.

# Penodiadau academaidd

### Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gweldig




Mae'r **Athro Nigel Scollan** wedi cael ei benodi i Gadair Bwyd a Ffermio Waitrose a leolwyd yn IBERS. Mae'r uwchbenodiad hwn yn tanlinellu ymrwymiad Waitrose i ddarganfod atebion hirdymor i ddiogelwch bwyd a materion eraill sy'n effeithio ar amaethyddiaeth yn y DU, a bydd yn rhoi cefnogaeth ymchwil byd-eang i'r archfarchnad a chwmnïau cysylltiedig, ar sut i wella cynaliadwyedd systemau cynhyrchu bwyd y DU.

### Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol



Bydd **Dr Huw Bennett** yn ymuno â'r Adran fel Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol ac Astudiaethau Cudd-wybodaeth. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys rhyfela yn yr ugeinfed ganrif; gwrth-ryfela Prydeinig ers 1945; Argyfwng Kenya, 1952-1960; cudd-wybodaeth a diogelwch, a dimensiynau milwrol y trafferthion yng Ngogledd Iwerddon a strategaeth gyfoes.




Ymuna **Dr Berit Bliesemann de Guevara** â'rAdran fel Uwch Ddarlithydd ym maes ailadeiladu ôl-wrthdaro. Ei phrif ddiddordebau ymchwil yw adeiladu gwladwriaeth a'r wladwriaeth mewn cymdeithasau ôl-wrthdaro; rôl grwpiau trafod mewn rheoli gwrthdaro yng nghyd-destun gwleidyddiaeth rhyngwladol; rhesymau a chwrs rhyfeloedd mewnol; a grwpiau gwrthryfelgar ar y rhyngrwyd. Mae ei meysydd arbenigol rhanbarthol yn cynnwys Bosnia a Herzegovina, America Ladin ac India.



Bydd **Dr Jeff Bridoux** yn ymuno fel Darlithydd mewn ailadeiladu ôl-wrthdaro. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys y defnydd o'r cysyniad o rym mewn cysylltiadau rhyngwladol, yn enwedig o ran polisi tramor America, gwleidyddiaeth ryngwladol y Dwyrain Canol a Dwyrain Asia, ailadeiladu ôl-wrthdaro, hyrwyddo democratiaeth a democrateiddio.



Mae **Dr Madeline Carr** yn ymuno â'r Adran i ddarlitho mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Dimensiwn Seiber. Mae ei diddordebau ymchwil yn cynnwys lluniad cymdeithasol o dechnoleg, diogelwch cyfrifiadurol mewn gwrthdaro rhwng gwladwriaethiau, niwtraliaeth a rheolaeth y rhyngrwyd, effaith technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar fframweithiau presennol ar gyfer deall cysylltiadau rhyngwladol, seiber diogelwch a rheolaeth y ryngrwyd, diogelwch rhyngwladol a pholisi tramor yr Unol Daleithiau - yn enwedig mewn maes technoleg sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau diogelwch newydd.



Mae **Dr Charalampos Efstathopoulos** yn ymuno â'r Adran fel Darlithydd ym maes Pwerau Newydd sy'n dod i'r amlwg. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys damcaniaethau pŵer canol; ymagweddau damcaniaethol at ddiplomyddiaeth amlochrog, polisi tramor India a De Affrica, gwleidyddiaeth masnach a thrafodaethau Cymdeithas Masnach y Byd



Bydd **Dr Kristan Stoddart** yn cymryd ei le fel Darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol a'r Dimensiwn Seiber. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn cynnwys materion arfau niwclear, strategaeth niwclear, 'ataliaeth lleiaf', terfysgaeth niwclear ac atal amlhau niwclear. Mae ganddo hefyd ddiddordeb ymchwil brwd ym mhwysigrwydd cudd-wybodaeth mewn strategaeth, ac yn nadl y Chwyldro mewn Materion Milwrol sy'n canolbwyntio ar dechnoleg a diogelwch, yn enwedig seiber ddiogelwch a seiber-ryfela.

### Adran Hanes a Hanes Cymru



Pendowyd **Dr Martyn J Powell** yn Bennaeth ar yr Adran Hanes a Hanes Cymru. Enillodd Dr Powell raddau israddedig ac ôl-raddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac yna bu'n darlithio ym Mhrifysgol Nottingham cyn dychwelyd i Aberystwyth i ymgymryd â swydd barhaol. Mae'n arbenigwr ar hanes gwleidyddol a chymdeithasol Iwerddon.

### Ysgol Rheolaeth a Busnes (SMB)



Penodwyd **Mike Christie** (gynt o IBERS) yn Athro mewn Economeg Amgylcheddol a Ecolegol yng SMB. Mae ei ymchwil yn cynnwys prisiad economaidd o fuddion y 'gwasanaeth ecosystem' sy'n deillio o fioamrywiaeth ac adnoddau naturiol eraill. Mae ei brosiectau cyfredol yn cynnwys prosiect BESS NERC gwerth £3 miliwn sy'n ymchwilio i ba mor bwysig mae organebau afon i swyddogaeth a gwerth economaidd ecosystemau afonydd Cymru .




Mae **Andrew Henley** yn ailymuno â SMB ym mis Hydref fel Athro Entrepreneuriaeth a Datblygu Economaidd Rhanbarthol. Roedd yr Athro Henley yn Athro Economeg yma , ac yn fwy diweddar yn Bennaeth ar Ysgol Fusnes ac Economeg Prifysgol Abertawe, ac yn Gyfarwyddwr y rhaglen mawreddog LEAD Cymru a leolwyd ym Mhrifysgolion Abertawe a Bangor. Mae ei arbenigedd ymchwil mewn meysydd entrepreneuriaeth, economeg adnoddau dynol ac mewn datblygu rhanbarthol.

### Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu



Mae **Dr Matt Hills** wedi cael swydd Athro Astudiaethau Ffilm a Theledu. Cwblhaeodd Dr Hills ei PhD ym Mhrifysgol Sussex, a bu'n gweithio yn adran Cyfryngau a Diwylliant Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Caerdydd. Mae ei ddiddordebau ymchwil ar cyfryngau cwlt a diwylliannau ffan yn canolbwyntio yn fwy cyffredinol ar astudiaethau diwylliannol ar gynulleidfaoedd.




Mae **Dr Birgit Beumers** yn ymuno â'r adran fel Athro Astudiaethau Ffilm. Mae Dr Beumers yn arbenigo mewn diwylliant cyfoes Rwsia. Mae ei diddordebau ymchwil fel arfer yn gorwedd mewn diwylliant cyfoes, yn enwedig theatr a drama, a sinema Rwsia a chanol Asiaidd.

### Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol

Mae'r Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol yn falch o groesawi pedwar aelod newydd o staff ar gyfer y sesiwn newydd.



Yn ymuno â'r tîm Ysgrifennu Creadigol mae **Dr Jacqueline Yallop**, awdur dwy nofel, *Obedience* (Atlantic / Penguin, 2011) a *Kissing Alice* (Atlantic, 2009), a'r llyfr ffeithiol, *Magpies, squirrels and thieves: How the Victorians Collected the World* (Atlantic, 2011) – a gyrraeddodd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn Longman-History Today 2012.



Hefyd yn ymuno â'r tîm Ysgrifennu Creadigol mae **Dr Katherine Stansfield.** Mae nofel gyntaf Katherine yn archwilio hanes a hunaniaeth Cernyweg ac yn cael ei chyhoeddi gan Parthian yn 2013. Cyhoeddir ei chasgliad barddoniaeth llawn cyntaf yn 2014 gan un o weisg barddoniaeth uchaf ei pharch y DG, Seren. Mae barddoniaeth Katherine wedi cael ei gyhoeddi yn eang mewn cylchgronau a chyfnodolion a chynhwyswyd hi ar rhestr fer derfynol gwobrau Eric Gregory 2011.



Bydd **Dr Rosie Dub** yn cychwyn swydd newydd gyffrous fel Cymrawd Ysgrifennu Creadigol, hi sy'n gyfrifol am oruchwylio myfyrwyr PhD – un o feysydd mwyaf llewyrchus yr adran. Magwyd Rosie yn Adelaide, a bu'n byw yn Tasmania. Cyhoeddwyd ei nofel, *Gathering Storm* gan Penguin yn 2008, ac mae ei hail nofel, *Flight*, yn ymddangos gan Fourth Estate yn 2011.



Mae **Beth Rodgers** yn ymuno â'r tîm Llenyddiaeth Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg o Brifysgol y Frenhines, Belfast. Mae ei phrif diddordeb yn gorwedd mewn cynrychioliadau o enethdod ar draws amrywiaeth o *genres*, hyd yn hyn mae ei chyhoeddiadau wedi edrych ar sut wnaeth cyfnodolion ifanc, cylchgronau merched a straeon ysgol siapio tirwedd diwylliannol y cyfnod. Bydd ei phrosiect mawr nesaf yn canolbwyntio ar yr awdur plant Gwyddelig, LT Meade, ac archwilio rôl yr awdur proffesiynol benywaidd yn ystod y 1890au.

## Llongyfarchiadau

### Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

Llongyfarchiadau i **Kate Woodward**, Darlithydd mewn Astudiaethau Ffilm a Theledu, ar enedigaeth ei merch Greta Grug ar 17 Mai. Llongyfarchiadau hefyd i'r Pennaeth, **Dr Jamie Medhurst** a Gweinyddwr Ymchwil ac Ôl-raddedig yr adran, **Ceris Medhurst Jones**, ar enedigaeth eu mab Henry Joseph ar 25 Mehefin.

# Penodiadau



### Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus

Penodwyd **Alice Earp** i rôl Swyddog Cyhoeddiadau. Mae Alice wedi gweithio yn y Brifysgol am bum mlynedd, i ddechrau yn y Swyddfa Cynllunio ac yn ddiweddarach yn y Swyddfa Ymchwil.



Mae **Esther Eckley** newydd ymuno â'r Brifysgol fel Swyddog Ymgyrchoedd. Bu Esther yn ymgynghorydd cysylltiadau cyhoeddus ac mae ganddi dros 15 mlynedd o brofiad yn y diwydiant.



Ymunodd **Steve Pickup** a'r adran fel Swyddog Digwyddiadau. Rhennir y rôl gyda'r Adran Datblygu a Chysylltiadau Alumni a bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Is-Ganghellor. Arferai Steve weithio yn Undeb y Myfyrwyr.



### Swyddfa Ymchwil

Penodwyd **Anne Howells** fel Swyddog Datblygu Ewropeaidd o fewn Uned y Swyddfa Ymchwil Ewropeaidd. Bydd Anne yn gweithio'n agos gyda staff yr adran gyllid, ac yn gyfrifol am oruchwylio'r ddarpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gysylltiedig â gwneud cais ar gyfer holl Gronfeydd Strwythurol yr UE, ESF, ERDF ac INTERREG.

# Cymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru

Etholwyd nifer o aelodau o staff presennol yn Gymrodorion Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn 2012.

THE LEARNED SOCIETY OF WALES
CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
CELEBRATING SCHOLARSHIP AND SERVING THE NATION
DATHLU YSGOLHEICTOD A GWASANAETHU'R GENEDL

Anrhydeddwyd yr Is-ganghellor, yr Athro April McMahon; yr Athro Qiang Shen, Pennaeth yr Adran Gyfrifiadureg; a'r Athro David Kay o'r Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, oll gan y Gymdeithas am eu cyfraniad academaidd i fywyd Cymru.

Diffiniwyd Cymrodorion y Gymdeithas fel "pobl sy'n byw yng Nghymru, pobl a aned yng Nghymru sy'n byw mewn gwlad arall, ac eraill gyda chysylltiad arbennig â Chymru; ym mhob achos, pobl a chanddynt hanes amlwg o ragoriaeth a chyrhaeddiad yn un o'r disgyblaethau academaidd neu, os ydynt yn aelodau o'r proffesiynau, y celfyddydau, diwydiant, masnach neu'r gwasanaeth cyhoeddus, pobl sydd wedi gwneud cyfraniad mawr i fyd dysg." Mae gan y Gymdeithas 250 Cymrodor bellach.

# Ysgolhaig Dysgeidig Tramor yn Tsieina



Cafodd yr **Athro Neville Greaves**, Athro Ymchwil Nodedig yn IMAPS ac yn Gymrawd Ymchwil Nodedig yn yr Adran Gwyddor Deunyddiau a Meteleg ym Mhrifysgol Caergrawnt, ei ethol yn Ysgolhaig Dysgeidieg Tramor yn Tsieina gan Brifysgol Shanghai gyda chyllid i ymweld ag, a dysgu yn yr Ysgol Beirianneg a Deunyddiau Gwyddoniaeth Prifysgol Shanghai.

# Ymddeoliad

### Adran Ieithoedd Ewropeaidd



Ymddeolodd **Joanne Maltman**, Ysgrifenyddes Adrannol yr Adran Ieithoedd Ewropeaidd ar ddiwedd mis Mehefin. Mae'r Adran am ddymuno'n dda iddi ac yn diolch iddi am ei holl waith diflino ers 2003.

# Bowlio ar gyfer Cymru



Dewisiwyd aelod o dîm tirmyn y Brifysgol, **Andrew Fleming** fel un o tîm bum dyn ar gyfer Pencampwriaethau Bowls y Byd 2012 yn Adelaide. Bydd Andrew, a oedd yn cynrychioli Cymru yn Gemau'r Gymanwlad 2010, yn hedfan allan i Awstralia ym mis Tachwedd i gystadlu yn y digwyddiad pwysig hwn.

## Cadeirydd newydd Llenyddiaeth Cymru



Cyhoeddwyd bod yr **Athro Damian Walford Davies,** Pennaeth yr Adran Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol, wedi cael ei benodi yn Gadeirydd newydd Llenyddiaeth Cymru.

Wrth ymgymryd â'r rôl newydd, dywedodd: "Mae derbyn rôl Cadeirydd un o'n sefydliadau cenedlaethol yn fraint ac yn her. Fy mwriad fel Cadeirydd yw helpu gosod ein dau draddodiad llenyddol yn eu lle priodol mewn dadleuon cyfoes, fel bod ysgrifennu nid yn unig yn bleser i'r ychydig, ond yn arf i newid a thrawsnewid ni i gyd."

DIGWYDDIADUR

# Darlith Flynyddol y DDMI 2012 – Yr Athro Norman Davies ar stâd Ewrop



Yr Athro Norman Davies

Mae'r Sefydliad Coffa David Davies (DDMI) yn llawen i gyhoeddi y bydd yr hanesydd tan gamp yr Athro Norman Davies yn traddodi'r Ddarlith Flynyddol yn 2012.

Yn ei yrfa gynnar, arbenigodd yr Athro Davies yn hanes gwlad Pwyl, ond ers hynny y mae wedi gwneud cyfraniadau pendant yn ein dealltwriaeth o hanes Prydain a hanes Ewrop yn gyfangwbl. Teitl ei lyfr diweddaraf, sydd wedi cael ei ganmol yn arw, yw *Vanished Kingdoms: The History of Half-Forgotten Europe* (2011).

Cynhelir Darlith Flynyddol y DDMI 2012 am 6yh ar nos Iau 1af Tachwedd, yn yr Hen Neuadd, yr Hen Goleg. Bydd yr Athro Davies yn siarad ar stâd Ewrop. Mae'n addo i fod yn ddatganiad mawr gan un o haneswyr pennaf ein hoes. Am fwy o wybodaeth am ddarlithoedd cyhoedddus a digwyddiadau ewch i www.aber.ac.uk/cy/news/public-lectures-and-events/

## Darlith Gyhoeddus: *'Human evolution in a variable environment: the amplifier lakes of Eastern Africa'*



**6.30yh, Dydd Llun 1af o Hydref 2012**

**Prif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

Martin H. Trauth, Athro mewn deinameg paleohinsoddol ym Mhrifysgol Potsdam

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â'r Athro Trauth - gwyddonydd Daear amlwg sydd wedi gweithio ar amrywiol agweddau ar ailstrwythuro a modeli newidiadau hinsawdd y Ddaear yn y gorffennol dros ddau ddegawd - wrth iddo ddarparu mewnwelediad rhyfeddol i ddylanwad newidiadau hinsoddol ar esblygiad dynol.

Croesewir pawb i'r ddarlith gyhoeddus, a gynhelir gan SDGD, lle bydd yr Athro Trauth yn ein hebrwng ar hyd taith faith o'r hynafol hyd at heddiw, a hynny ar adeg lle mae'n bwnc trafod pwysig i bawb. Cynhalier noson win a chaws yn rhad ac am ddim yn y dderbynfa yn union wedi'r ddarlith.

Estynnir croeso cynnes i bawb i fynychu.

Am fwy o fanylion am Ddarlithoedd Cyhoeddus a Digwyddiadau ewch at www.aber.ac.uk/cy/news/public-lectures-and-events/

## Canolfan Gerdd y Brifysgol

Ym mis Medi bydd rhaglen fywiog Canolfan Gerdd y Brifysgol o berfformiadau ensemble a chyngerddau ar gyfer myfyrwyr, staff, ac unrhyw un sydd am gymryd rhan, yn ailgychwyn. Bydd pob dim yn dechrau yn ystod wythnos gyntaf y tymor, gydag ymarferion yn Neuadd Joseph Parry ym Maes Lowri ac yn yr Hen Neuadd Dril gyferbyn â Matalan.

Bydd yr Undeb Gorawl (nosweithiau Gwener), y côr cymysg yn dechrau gweithio ar waith ysblennydd a lliwgar Carl Orff, *Carmina Burana*, ar gyfer cyngerdd yn y gwanwyn. Yn ogystal, bydd yr arweinydd, y Cyfarwyddwr Cerdd Dr David Russell Hulme, yn gweithio gyda'r gerddorfa symffoni, Philomusica (nosweithiau Mercher), ar gyfer cyngerdd ym mis Rhagfyr fydd yn cynnwys y fiolynydd o Aberystwyth Christiana Mavron, i berfformio *The Lark Ascending* gan Vaughan Williams. Perfformir hefyd symffoni gyntaf Sibelius – a llawer, llawer mwy.

Noswaith y Band Chwythbrennau yw nos Lun, pan fydd yr arweinydd Aidan Hassan yn tywys y grŵp bywiog hwn trwy amrywiaeth o weithiau poblogaidd a chlasurol. Ceir hefyd y Simple Strings, ensemble llinynol i chwaraewyr o bob safon ar ddyddiau Mawrth, a Saxophony, i chwaraewyr sax, ar ddydd Iau.

Mae pob grŵp yn croesawi aelodau newydd. Dewch i fod yn rhan o weithgareddau cerddoriaeth fyw amrywiol y Brifysgol. Cliciwch ar wefan y Ganolfan Gerdd am wybodaeth bellach www.aber.ac.uk/en/music/.